

# CANU GWERIN

(FOLK SONG)

---

27 – 2004

CYMDEITHAS  
ALAWON GWERIN  
CYMRU

---

THE WELSH  
FOLK-SONG  
SOCIETY



# **CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU**

**Elusen gofrestredig rhif 259772**

## **SWYDDOGION**

**Llywydd:** D. Roy Saer

**Is-Lywyddion:**

Dr Osian Ellis  
Dr Meredydd Evans  
Phyllis Kinney

**Cadeirydd:**

Dr Rhiannon Ifans

**Is-Gadeirydd:**

Dr E. Wyn James

**Ysgrifennydd:**

Buddug Lloyd Roberts  
Hafan, Cricieth, Gwynedd LL52 0BS  
Ffôn: 01766 522096

**Trysorydd ac Ysgrifennydd Aelodaeth:**

Rhidian Griffiths  
Coed y Berllan, Ffordd Bryn-y-môr, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2HX  
Ffôn: 01970 610160  
E-bost: [griffiths.berllan@btinternet.com](mailto:griffiths.berllan@btinternet.com)



Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru  
Journal of the Welsh Folk-Song Society

---

|                                                                                                                   |           |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------|
| <b>J. Lloyd Williams: Y Cyfarwyddwr Cerdd</b><br>Elen Wyn Keen                                                    | <b>3</b>  |
| <b>Geiriau newydd, hen fesurau</b><br>Myrddin ap Dafydd                                                           | <b>22</b> |
| <b>Cân yr Hen Farcutan Benllwyd</b><br>Daniel Huws                                                                | <b>26</b> |
| <b>‘A’r byd i gyd yn bapur ...’ Rhan 3:</b><br><b>Dylanwadau rhyngwladol – Sansgrit a Hebraeg</b><br>E. Wyn James | <b>34</b> |
| <b>Jane Williams, Holywell</b><br>David R. Jones                                                                  | <b>48</b> |
| <b>Gorfoledd ‘Cwynfan Prydain’</b><br>Rhiannon Ifans                                                              | <b>61</b> |
| <b>Adolygiad: Dafydd Ifans</b>                                                                                    | <b>64</b> |
| <b>Cynhadledd Astudiaethau Gwerin 2005</b><br>Siwan Rosser                                                        | <b>66</b> |

---

Y cyfranwyr biau hawlfraint eu cyfraniadau. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn y Cylchgrawn o reidrwydd yn adlewyrchu barn y Golygydd na'r Gymdeithas.

*Contributions are the copyright of the contributors. Opinions expressed in the Journal do not necessarily reflect the viewpoints of the Editor or the Society.*

**Golygydd:** Rhiannon Ifans

**Argraffu:** Gwasg Morgannwg, Castell-nedd

### **Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru**

Aelodaeth unigol: £6.00  
(Individual membership)

Aelodaeth deuluol: £8.00  
(Family membership)

Aelodaeth myfyrwyr: £2.00  
(Student membership)

### **Ysgrifennydd Aelodaeth / Membership Secretary:**

Dr Rhidian Griffiths, Coed y Berllan, Ffordd Bryn-y-Môr,  
Aberystwyth, Ceredigion SY23 2HX

 (01970) 610160

**Llun y clawr:** Cynhyrchiad Cwmni Theatr Arad Goch o ‘Letus’ gan Mari Rhian Owen; Drama Gomisiwn Eisteddfod Genedlaethol Meifod 2003; bu’n teithio Cymru yn swyno cynulleidfaoedd â’i cherddoriaeth werin hudolus. Darluniwyd yn y ddrama hanes gwraig yn rhoi ei hun i ofal y wyrwys: gweler erthygl David R. Jones, ‘Jane Williams, Holywell’.

*Llun:* Keith Morris

*Eleni fe gofir yn annwyl am un o gewri Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, a hynny ar achlysur nodi canmlwyddiant a hanner ei eni. Bu'r Athro J. Lloyd Williams (1854–1945) yn un o hoelion wyth y Gymdeithas, ac y mae'n bleser cael cyhoeddi'r erthygl a ganlyn er cof amdano.*

## **J. LLOYD WILLIAMS: Y CYFARWYDDWR CERDD<sup>1</sup>**

**Elen Wyn Keen**

Penodwyd J. Lloyd Williams yn ddarlithydd cynorthwyol yn yr Adran Fotaneg yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor ym 1897 a hynny ar ôl treulio pedair blynedd yn Llundain yn astudio Botaneg yn y Coleg Gwyddonol Brenhinol. Yn ystod y cyfnod hwnnw llwyddodd i droi clust fyddar i'r holl gyfoeth o adnoddau cerddorol oedd o'i amgylch yn y brifddinas gan ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar ei astudiaethau gwyddonol. Ei fwriad oedd dilyn yr un llwybr ym Mangor ond nid felly y bu. Yn fuan, daeth galw am ei wasanaeth fel cerddor yn enwedig ei ddawn fel arweinydd ac yn raddol daeth yn gyfrifol am yr holl weithgareddau cerddorol o fewn y Coleg gan gynnwys dysgu cerddoriaeth i ddarpar athrawon yn y 'Day Training Department'. Bu'r cyfnod hwnnw'n drobwynt allweddol yn hanes J. Lloyd Williams fel cerddor ac yn wir yn hanes bywyd cerddorol y Coleg a dinas Bangor ar y pryd.



*Elen Wyn Keen*

Rhaid cofio nad oedd cyfrifoldeb o'r fath yn beth newydd i Lloyd Williams – roedd ganddo ddeunaw mlynedd o brofiad fel hyfforddwr ac arweinydd corau yn ystod ei gyfnod fel ysgolfeistr yng Ngarndolbenmaen<sup>2</sup> a pheth profiad blaenorol tra oedd yn ddisgybl-athro yn Ysgol Frutanaidd Llanrwst.


Troi ei gefn yn llwyr ar gerddoriaeth a cheisio ymryddhau o afael a dylanwad y byd hwnnw a wnaeth pan benderfynodd adael Garndolbenmaen a throedio llwybr cwbl newydd yn Llundain:

. . . cofiwn fy mod ar un adeg yn credu mai gwastraff amser i wyddonydd o leiaf, oedd 'boddro' efo canu, a fy mod pan yn gadael Cymru am Lundain wedi ymdynghedu i ddirwesta oddiwrth fiwsig a fy mod wedi dal at fy mhenderfyniad drwy y pedair blynedd y bum yn y brif ddinas a thrwy hynny wedi colli cyfleusterau i glywed mwy o brif-weithiau'r byd.<sup>3</sup>

Rhaid cofio mai gwyddoniaeth a gâi'r flaenoriaeth gan Lloyd Williams yn ystod y cyfnod hwn a bu'r frwydr rhwng gwyddoniaeth a cherddoriaeth yn un galed iddo gydol ei fywyd. Fel gwyddonydd y dymunai gael ei gydnabod ond nid oes amheuaeth nad oedd cerddoriaeth wedi chwarae rhan amlwg iawn yn ei fywyd. Roedd y ddeuoliaeth arbennig hon a'r wedd wyddonol ar ei gymeriad wedi cyfrannu'n helaeth at ei ddealltwriaeth a'i werthfawrogiad o gerddoriaeth.

Ymddengys mai'r Prifathro Harry Reichel<sup>4</sup> a'i wraig y Fonesig Mary Reichel<sup>5</sup> fu'r dylanwadau pennaf ar J. Lloyd Williams wedi iddo ymuno â staff y Brifysgol ym Mangor. Un o'r dyletswyddau cerddorol cyntaf yr ymgwymerodd Lloyd Williams ag ef oedd arwain côr o aelodau staff y Brifysgol a ddeuai ynghyd i ymarfer yng nghartref Reichel ym Mhenrallt. Y Fonesig Reichel a lwyddodd i ddarbwylllo J. Lloyd Williams i gymryd yr awenau ac o ganlyniad i hynny, datblygodd perthynas agos rhyngddo a'r prifathro a'i wraig. Rhannai Reichel ac yntau yr un diddordebau yn enwedig ym myd natur a gellir honni mai ef fu'n bennaf gyfrifol am annog J. Lloyd Williams i beidio â throi ei gefn ar gerddoriaeth.

Penodwyd ef yn is-arweinydd Cymdeithas Gorawl y Brifysgol ym 1899 ond er hyn, bu'n rhaid aros hyd at 1901 cyn gweld ei enw'n gysylltiedig â



*J. Lloyd Williams, c. 1900-14  
LIGC, Casgliad J. Lloyd Williams  
68: UCNW Bangor – Popular  
Lectures (Bangor, c. 1900-14)*



gweithgareddau allweddol o fewn y Coleg. Yn y flwyddyn honno, fel ymgais i ddatblygu'r ymwybyddiaeth Gymreig, cafwyd ton o genedligrwydd ymysg rhai o'r myfyrwyr a theimlad o anniddigrwydd ynglŷn â statws israddol yr iaith Gymraeg o fewn y sefydliad. Fel ymgais chwyldroadol i newid y sefyllfa penderfynwyd y dylid perfformio gwaith Cymreig yn nathliadau Gŵyl Ddewi'r Coleg. Roedd dwy ran i'r gweithgareddau hynny fel arfer: naws gerddorol fyddai i'r rhan gyntaf lle ceid eitemau amrywiol gan aelodau o'r Gymdeithas Gorawl a byddai'r ail ran yn cynnwys perfformiad dramatig. Cyn y cyfnod hwn, dramâu clasurol Seisnig a gafwyd ond yn sgil penderfyniad Pwyllgor Dathliadau Gŵyl Ddewi y Brifysgol, sef aelodau o Gyngor Cynrychioli'r Myfyrwyr (Student's Representative Council), aelodau o Gymdeithas y Cymric ac aelodau o'r staff, penderfynwyd gofyn i J. Lloyd Williams fod yn gyfrifol am drefnu perfformiad o chwareugan Gymreig yn rhan o ddathliadau 1901. Llwyfannwyd *Aelwyd Angharad*<sup>6</sup> gan gynrychiolwyr o'r pwyllgor drama ac aelodau o'r Gymdeithas Gorawl o dan arweinyddiaeth J. Lloyd Williams. Bu'r cynhyrchiad hwn fel chwa o awyr iach – dyma'r tro cyntaf i waith gael ei berfformio trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg ar lwyfan cyhoeddus y Coleg a bu'r arbrawf yn llwyddiant ysgubol. Bu'n gyfrwng i agor llygaid y Cymry i werth eu traddodiadau ac yn fodd o gryfhau'r elfen Gymreig o fewn y Brifysgol.

Byrdwn y ddrama gerdd hon yw'r pwysigrwydd o fod yn driw i'r traddodiadau Cymreig a chodi ymwybyddiaeth o'r traddodiad hwnnw. Fe'i cyfansoddwyd gan J. Lloyd Williams a Llew Tegid<sup>7</sup> ar gyfer côr plant Capel Seion, Criccieth ym 1899 a daeth y chwareugan yn boblogaidd ymysg cynulleidfaoedd a chwmnïau drama ar hyd a lled Cymru yn ystod blynyddoedd cynnar yr ugeinfed ganrif. Diddorol yw nodi bod J. Lloyd Williams, yn ystod ei gyfnod fel prifathro yng Ngarndolbenmaen, wedi ysgrifennu at David Jenkins yn gofyn iddo gyfansoddi operata Gymraeg yn seiliedig ar alawon Cymreig yn wyneb diffyg gweithiau o'r fath ar gyfer plant yng Nghymru. Fel y cyfeirir yn ei gyfrol *Atgofion Tri Chwarter Canrif*<sup>8</sup> bu'n feirniadol iawn o'r hyn a dderbyniodd gan y cerddor a hynny oherwydd yr arddull Seisnig. Tystia hyn i'r ffaith fod J. Lloyd Williams wedi gweld angen am waith o'r fath i hyrwyddo alawon cenedlaethol ymysg plant ac fel cyfrwng i addysgu cynulleidfaoedd.

Rhoddyd perfformiad drachefn o *Aelwyd Angharad* yn nathliadau Gŵyl



*Llun o Gwmni Aelwyd Angharad, Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor, 1904*

Ddewi y Coleg ym Mangor ym 1904 a bu'r perfformiadau oll yn llwyddiannus ac yn hynod boblogaidd.

Ym mis Hydref 1904, penodwyd Lloyd Williams yn Gyfarwyddwr Cerdd rhan-amser y Coleg ac o'r cyfnod hwn y daeth yn gyfrifol am drefnu'r holl weithgareddau cerddorol o fewn y sefydliad. Un o'i ddyletswyddau oedd arwain y Gymdeithas Gorawl fel olynnydd i Dr Roland Rogers,<sup>9</sup> organydd a chôr-feistr yr Eglwys Gadeiriol ym Mangor. Digon difywyd oedd y Gymdeithas hon cyn ei benodiad yn arweinydd a nifer yr aelodau yn gymharol fychan. Er mai cyndyn ydoedd i gymryd yr awenau ar y dechrau, cyfaddefodd fod brwdfrydedd y myfyrwyr yn y pen draw wedi chwalu unrhyw amheuan oedd ganddo ynglŷn â'r swydd. Yn raddol, daeth y Gymdeithas Gorawl yn un o gymdeithasau mwyaf poblogaidd y Coleg ac erbyn 1908 dywedir bod cynifer â chant a thrigain wedi ymaelodi. Priodolwyd y gweddnewidiad hwn i ymdrechion difflino Lloyd Williams, i'w bersonoliaeth garismataidd, a'i ddawn arbennig fel arweinydd:

. . . the conductorship has been taken up by Mr. J. Lloyd Williams, who is a most capable leader and conducts in a very pleasant manner.

Owing mostly to the strenuous efforts of Mr. Lloyd Williams, the position of the Society at present is very satisfactory. Never before have its numbers been so large nor its practices so well attended. . . The great value of the Choral lies in the fact that the practices as a rule are enjoyed by the mediocre singers equally with the best vocalists in the choir. For this, we are mainly indebted to our conductor, Mr. Lloyd Williams. It is owing to [his] skilful management and genial personality that the practices have been so enjoyable.<sup>10</sup>

Un elfen gref iawn a ddaeth i'r amlwg yn ei waith fel Cyfarwyddwr Cerdd oedd ei ymdrechion diflino i geisio Cymreigeiddio seremonïau a chyngherddau cyhoeddus y Coleg a gwella statws yr iaith Gymraeg o fewn y sefydliad. Cafodd gefnogaeth lwyr gan Reichel yn yr agwedd hon a bu hynny'n allweddol i'r datblygiadau fu ym maes canu gwerin ym Mangor yn ystod y blynyddoedd hynny.

Er bod rhaglen ddathliadau Gŵyl Ddewi 1903 wedi cynnwys datganiadau o rai alawon Cymreig ac esiamplau o ganeuon allan o *Aelwyd Angharad* gan unigolion a phartïon lleisiol yn ystod cyfnod Lloyd Williams fel llywydd Cymdeithas y Cymric, bu'n rhaid aros tan fis Mawrth 1905 cyn i'r Gymdeithas Gorawl berfformio trefniannau o ganeuon gwerin o lwyfan cyhoeddus am y tro cyntaf. Y tro hwn, cafodd J. Lloyd Williams ganiatâd arbennig gan y Prifathro i gynnwys ambell alaw genedlaethol yn y rhaglen – alawon oedd eisoes wedi'u cyhoeddi mewn casgliadau cyhoeddedig oedd y rhain ac 'alawon heb eu hystrydebu', yn ei eiriau ef.<sup>11</sup> Lluniodd drefniannau ohonynt ar gyfer y côr gan ddefnyddio cerddi o waith beirdd cyfoes a phenillion newydd o waith Llew Tegid ar yr alawon offerynnol. Er i'r arbrawf hwn fod yn llwyddiant o safbwynt y gynulleidfa a'r myfyrwyr, nid oedd Lloyd Williams er hynny yn gwbl fodlon:

Canai'r Côr gyda hwyl; ac eto teimlwn ias o siom – yr oedd rhywbeth ar ôl, ond beth, yr oedd yn anodd penderfynu. . . Ar un olwg yr oedd yn llwyddiant, oblegid yr oedd digon o gymeradwyaeth galonnog i'r canu . . . Ond nid oedd hyn yn ddigon. Pan welid bod y copïau yn dal i gael eu defnyddio, ac mai ychydig o duedd ymledu y tuallan [*sic*] i derfynau'r ystafell gyngerdd a ddangosai'r caneuon, gwyddem fod yr arbrawf wedi syrthio'n fyr o gyrraedd yr amcan oedd mewn golwg gennym.<sup>12</sup>

Yn seremoni graddio'r Coleg ym mis Tachwedd y flwyddyn honno cafwyd

perfformiadau cyffelyb o alawon cenedlaethol gan y Gymdeithas Gorawl. Dewis a dethol alawon ar gyfer eu trefnu o gasgliadau cyhoeddedig a wnaeth J. Lloyd Williams yn union fel ag o'r blaen ac eithrio'r alaw 'Tra Bo Dau'. Cofnododd yr alaw hon rai blynyddoedd ynghynt pan glywodd ei wraig a'i chwaer yng nghyfraith yn ei chanu wedi iddynt ei dysgu gan eu tad oedd yn llongwr. Lluniodd drefniant ohoni ar gyfer y côr ac fe'i perfformiwyd yn y seremoni gyhoeddus. Sylwodd yn ddiymdroi fod apêl yr alaw honno yn wahanol i'r gweddill:

Trefnwyd y gân i'r côr, ac, er dirfawr syndod, hi a "gymerodd" ar ei hunion. Yn fuan clywid ei chwibanu a'i hwmian y tuallan i'r Coleg, a pha bryd bynnag y'i cenid, nid ar "la-la" y gwneid hynny, ond byddai'r geiriau bob amser yng nghyswllt â'r nodau.<sup>13</sup>

Yn dilyn y perfformiad hwnnw, sylweddolodd Lloyd Williams yn raddol fod symlder a thlysnï'r gân 'Tra bo Dau' yn rhagori ar yr alawon eraill. O'r digwyddiad allweddol hwn y deilliodd yr ymwybyddiaeth fod math gwahanol o alawon yn bodoli – nid alawon offerynnol ond alawon gwerin. Er mai ar ddamwain y digwyddodd hyn, bu'r canfyddiad yn arwyddocaol nid yn unig yn hanes J. Lloyd Williams fel cerddor ond i weithgareddau cerddorol y Coleg ac yn wir i faes canu gwerin yng Nghymru benbaladr yn nes ymlaen.

Trefnodd fwy o ganeuon cyffelyb a'u dwyn i mewn i *repertoire* Cymdeithas Gorawl y Coleg. Daeth yr arfer o glywed alawon gwerin o lwyfannau cyhoeddus ym Mangor yn nodwedd gyffredin am gyfnod wedi hynny a daeth galw mawr amdanynt. Pan osodwyd carreg sylfaen adeilad newydd y Coleg ym mis Gorffennaf 1907, bu J. Lloyd Williams yn gyfrifol am ochr gerddorol y seremoni ac am hyfforddi côr yn arbennig ar gyfer y digwyddiad. Perfformiwyd hyd at ddeg o alawon Cymreig wedi'u trefnu ganddo yn ystod a chyn y seremoni.

Pedair blynedd yn ddiweddarach, ar 14 Gorffennaf 1911, cafwyd agoriad swyddogol ar gyfer adeiladau newydd y Brifysgol.<sup>14</sup> Gwahoddwyd seindorf arian 'Band of the Second Battalion of the Welch Regiment' o dan arweiniad K. S. Glover i berfformio yn ogystal â chôr o'r Brifysgol dan arweiniad Lloyd Williams. Gweithiau cyfansoddwyr poblogaidd a gafwyd gan y seindorf ond cafwyd eitemau Cymreig gan y côr. Cyn y seremoni swyddogol, cafwyd rhaglen hanner awr o adloniant ganddynt yn Neuadd Prichard-Jones gan gynnwys y caneuon 'Ffarwel i Blwy' Llangower',



‘Llwydd i’n Llywiwr’, ‘Blodau’r Grug’, ‘Dygan Caersws’, ‘Adar Môn y Mynydd’, ‘Y Perot Purlon’, ‘Hun Gwenllian’ ac ‘Aeres Trefaldwyn’. Yn ystod y seremoni, cafwyd perfformiad o hen benillion ar yr alaw ‘Moel yr Wyddfa’, ‘I’r Gâd’ a’r ymdeithgan ‘Capten Llwyd’.

Datblygiad allweddol a chwyldroadol arall a ddaeth yn sgil y ddealltwriaeth newydd a gafodd Lloyd Williams ym mis Tachwedd 1905 oedd sefydlu cymdeithas ymhlith y myfyrwyr yn dwyn yr enw Y Canorion. Ymddengys mai cangen o’r Gymdeithas Gorawl oedd hon yn wreiddiol a ddaeth dan ddylanwad eu cyfarwyddwr i geisio gwella’r defnydd o’r iaith Gymraeg yn y Coleg. Sefydlwyd y gymdeithas gyda’r bwriad o gasglu, astudio a pherfformio alawon gwerin anghyhoeddedig – y gyntaf o’i bath yng Nghymru.<sup>15</sup>

Cyfyd anhawster wrth geisio dyddio sefydlu cymdeithas y Canorion am fod cymaint o anghysondeb ynglŷn â’r mater yn y ffynonellau a astudiwyd. Honna Lloyd Williams ar sawl achlysur fod y Canorion wedi rhagflaenu Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru ac mai dyma a sbardunodd Harry Reichel i areithio yng nghyfarfod cyntaf Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru. Un o aelodau gwreiddiol y Canorion oedd William Ellis Jones<sup>16</sup> a enillodd ysgoloriaeth ym 1905 i Goleg y Gogledd i astudio gwyddoniaeth. Mewn anerchiad a ysgrifennodd ar gyfer *Rhaglen Dathlu Hanner Can Mlwyddiant Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru* ym 1958, dywedodd fel yr oedd perfformiadau’r Canorion ar achlysuron amrywiol yn y Coleg wedi arwain at gyfarfod y Gymdeithas yng Nghaernarfon ym 1906.<sup>17</sup>

Fodd bynnag, ceir nifer o ffynonellau sy’n awgrymu bod y Canorion yn deillio o gyfnod wedi sefydlu Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru. Un o aelodau mwyaf blaenllaw y gymdeithas hon o fyfyrwr oedd John Morris<sup>18</sup> a ddechreuodd ar ei gwrs gradd mewn Mathemateg ym 1906.<sup>19</sup> Ar fwy nag un achlysur mewn gwahanol ffynonellau mynnodd ef mai tymor yr hydref 1907 y sefydlwyd y Canorion ac ategir hynny hefyd mewn ffynonellau amrywiol o du’r Coleg.<sup>20</sup>

Roedd y mwyafrif o aelodau’r Canorion wedi cychwyn ar eu cwrs gradd naill ai ym 1905 neu 1906 ar wahân i John Owen Jones<sup>21</sup> a Morris Owen<sup>22</sup> a ddaeth i’r Coleg ym 1903, a Thomas Arthur Jones<sup>23</sup> a gychwynnodd ym 1904. Fodd bynnag, ni ellir gwadu mai criw bychan o gôr yr Eisteddfod Genedlaethol o dan arweiniad John Williams<sup>24</sup> a roddodd ddatganiadau o alawon traddodiadol yn ystod cyfarfod cyntaf Cymdeithas Alawon Gwerin

Cymru ym 1906 a hynny am nad oedd y Canorion ar gael ym mis Awst. Mae'n wir hefyd fod Reichel wedi traddodi araith ar alawon gwerin yn y cyfarfod cyntaf hwnnw yng Nghaernarfon<sup>25</sup> ond ni cheir ynddi unrhyw gyfeiriad at J. Lloyd Williams nac ychwaith at unrhyw weithgaredd yn ymwneud â cherddoriaeth werin o fewn y Brifysgol ym Mangor. Nid oes amheuaeth nad oedd y rhaglen a berfformiwyd gan y Gymdeithas Gorawl yn ystod seremoni graddio 1905, a'r trefniant arbennig o 'Tra bo Dau', wedi bod yn garreg filltir bwysig yn yr adfywiad ym myd yr alawon gwerin. Rhesymol fyddai credu ar y naill law fod J. Lloyd Williams wedi ei sbarduno yn fuan wedi hynny i drefnu mwy o alawon tebyg ac yn sgil prinder deunyddiau, wedi annog criw o fyfyrwyr i ddod at ei gilydd i gasglu ac yna i berfformio'r alawon hynny. Ar y llaw arall, ni ellir gwadu'r ffaith fod sawl ffynhonnell, yn arbennig o du'r Coleg, yn nodi'r flwyddyn 1907 fel adeg sefydlu'r Canorion. Yn ddi-os rhoddid pwyslais ar berfformio caneuon gwerin cyn 1907 ac o bosibl fe ellir ystyried y flwyddyn honno fel yr adeg y lluniwyd cyfansoddiad a rheolau ffurfiol ar eu cyfer gan ddechrau ar y gwaith o gasglu alawon gwerin o ddifrif.

Ymaelododd dau ar bymtheg o ddynion â'r Canorion ar y dechrau – pymtheg o fyfyrwyr, a dau aelod o staff y Coleg, sef Tom Roberts<sup>26</sup> a James G. Williams.<sup>27</sup> Ymhlith yr aelodau yr oedd John Morris, William Ellis Jones, John Owen Jones, Morris Owen, Hugh David Jones,<sup>28</sup> J. Gwynfryn Roberts,<sup>29</sup> Robert Ellis Vaughan-Roberts,<sup>30</sup> Thomas Arthur Jones, Thomas Trefor Jones,<sup>31</sup> Gwilym Arthur Tegid Jones,<sup>32</sup> Richard 'Dic' Jones,<sup>33</sup> ac R. Alun Richards.<sup>34</sup> Penodwyd J. Lloyd Williams yn gadeirydd ac arweinydd y Gymdeithas, a'r Prifathro Reichel yn llywydd. Bu ef yn gefnogol iawn i'r Canorion o'r dechrau ac ef a ysgwyddodd y gost o dalu rhent ystafell gyda phiano ynddi yn y Wicklow Temperance yn Stryd Fawr Bangor<sup>35</sup> er mwyn cynnal y cyfarfodydd. Fel hyn y disgrifiwyd un o'u cyfarfodydd cyntaf:

Wel, yn y Wicklow Temperance, dyma ryw ddwsin neu ragor ohonon ni'n cyfarfod Lloyd Williams ac yn siarad: oedd o'n siarad am ei fwriad o gael mwy o Gymraeg i'r coleg a mi roedden ninnau'n gwranddo, yn cytuno. A dyma fo'n rhoi dipyn o bethau i ni ganu – wel, wir, oedd 'no hwyl ar y canu i chi; oedd gynnon ni leisiau reit dda amser honno – a wir, 'roedd 'no frwdfrydedd mawr.<sup>36</sup>

Pwysleisiodd Lloyd Williams yr angen i gasglu caneuon gwerin ar fyrder a cheisiodd annog y myfyrwyr i ddychwelyd i'w broydd eu hunain yn ystod



gwyliau'r coleg i chwilio am y perlau gwerthfawr cyn iddynt fynd i ddifancoll. Sylweddolai bellach, yn sgil y wawr newydd o ymwybyddiaeth a gafodd, fod yr amser yn brin, fod gwaith mawr o'u blaenau, a bod angen gweithio ar fyrder er mwyn cadw'r traddodiadau'n fyw. Ei weledigaeth ef oedd casglu cynifer o alawon gwerin ag oedd yn bosibl er mwyn darparu sail gadarn a deunydd addas ar gyfer myfyrwyr y dyfodol. Dyma oedd byrdwn ei neges yn y ddarlith allweddol a gyflwynodd i Gymdeithas y Cymmrodorion ym 1908<sup>37</sup> ac nid oes amheuaeth nad oedd darlithoedd Alfred Graves a'r Prifathro Reichel wedi cael dylanwad pellgyrhaeddol arno ym 1906 ar achlysur sefydlu Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru.

Yr argraff a geir wrth astudio amryw ffynonellau gan aelodau'r Canorion yw fod J. Lloyd Williams wedi rhoi cyfarwyddiadau ac awgrymiadau iddynt ynghylch y dull gorau o fynd ati i gasglu'r caneuon hyn. Gwelwyd tebygrwydd mawr rhwng dulliau'r aelodau a dull Lloyd Williams ei hun fel casglwr, yn arbennig yn eu ffordd o geisio cymell unigolion i ddwyn caneuon i gof a'u canu o gofio'r anawsterau oedd yn eu hwynebu o safbwynt rhagfarnau'r oes ar y pryd.

Wedi dychwelyd i'r coleg ar ôl y gwyliau, cyfarfu aelodau'r Canorion drachefn, rhwng chwech ac un ar ddeg o'r gloch ar nos Iau gan rannu eu profiadau a'u darganfyddiadau. Diddorol yw nodi'r drefn a luniwyd gan J. Lloyd Williams ar gyfer un o'r cyfarfodydd hynny:

Session 1908–09 Second Meeting of Canorion

1. Minutes
2. Balloting New Members
3. New Chorus
4. Progress of Work
  - (1) Folk Song Soc. – Phonograph – (Ffarwel Mari)
  - (2) Lectures
  - (3) Grad[uation] music – demand – Credit to Canorion
  - (4) Folk Songs still being collectedAny member wanting to convey information
5. John Morris – 'Aderyn Du sy'n Rhodio'r Gwledydd'
6. Nodiadau ar Ganu Gwerin
  - (1) Symlwrwydd – dim trawsgyweiriadau – neu rai hawdd
  - (2) Naturioldeb – dim anhawster i'w canu. . .

- (3) Maent yn codi yn naturiol o'r geiriau – yn ffitio eu mydr ac yn aml yn mynegi pwyslais a theimlad y geiriau
- (4) Nod. angen y geiriau – dim geiriau anghyffredin – dim geiriau llanw (Yr Hen Gerddi) Cf. Jenkin two pieces

# 7. What of canu penillion.<sup>38</sup>

Fel y gwelir o'r rhaglen, agwedd bwysig arall ar waith y Canorion oedd eu perfformiadau digyfeiliant o'r caneuon gwerin a gasglwyd. Lluniodd Lloyd Williams drefniannau tri a phedwar llais ar eu cyfer a bu Llew Tegid yn gyfrifol am addasu rhai o'r geiriau yn wyneb y ffaith nad oedd ambell un ohonynt yn addas ar gyfer eu perfformio'n gyhoeddus. Edrychai ar y trefniannau hyn fel modd o boblogeiddio'r alawon gwerin a'u dwyn i sylw cynulleidfia ehangach. Rhaid cofio nad cyfansoddwr proffesiynol mohono ac nad oedd wedi derbyn hyfforddiant cerddorol ffurfiol – mynegodd ar sawl achlysur fod diffyg addysg gerddorol wedi llesteirio ei allu creadigol cynhenid. Fel yn achos *Aelwyd Angharad*, cyfyng oedd ei adnoddau cerddorol, ceidwadol oedd ei iaith a'i arddull gyfansoddi ac roedd dylanwad emynyddiaeth yn amlwg arnynt. Fodd bynnag, rhaid cofio mai bwrw

| PART I.                                                                                   |                                                   |                                                   | PART II.                                                                                |                                                       |                                                  |
|-------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------|---------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------|--------------------------------------------------|
| -*                                                                                        |                                                   |                                                   | -*                                                                                      |                                                       |                                                  |
| PART SONG                                                                                 | "Gipsy Life"                                      | <i>Schumann</i>                                   | PART SONG                                                                               | "A Border Ballad" ... <i>Oliveria Prescott</i>        |                                                  |
| THE PENRALLT CHOIR.                                                                       |                                                   |                                                   | THE PENRALLT CHOIR.                                                                     |                                                       |                                                  |
| SONGS                                                                                     | a "Der Neugierige" }<br>b "Trockne Blumen" }      | <i>Schubert</i>                                   | WELSH FOLKSONG ... "Doli"                                                               | a Published version (Welsh words)<br>MR. W. E. JONES. | <i>Arranged by<br/>Mr. J. Lloyd<br/>Williams</i> |
| MR. J. MAHLER.                                                                            |                                                   |                                                   | b Criccieth version (English words)<br>MR. MORRIS OWEN.                                 |                                                       |                                                  |
| TWO-PART SONG.                                                                            | "Fak Fidele" ...                                  | <i>Arne</i>                                       | SOMERSET FOLKSONGS a "As I walked thro' the Meadows"<br>b "Young Heichard" (in Dialect) |                                                       |                                                  |
| LADY REICHEL, MISS EDWARDS, MISS M. EDWARDS,<br>MRS. HUGHES WILLIAMS, MISS URSULA HUGHES. |                                                   |                                                   | MR. J. MAHLER.                                                                          |                                                       |                                                  |
| WELSH FOLKSONGS                                                                           | a "Bugal Eryri"<br>b "Ffarwel i Bwy' Llangower" } | <i>Arranged by<br/>Mr. J. Lloyd<br/>Williams.</i> | VIOLIN SOLO ... "Romance" ...                                                           | <i>Spendsen</i>                                       |                                                  |
| THE "CANORION" SOCIETY.                                                                   |                                                   |                                                   | MR. WHITEHEAD.                                                                          |                                                       |                                                  |
| SONG ...                                                                                  | "L' Eid" ...                                      | <i>Chaminade</i>                                  | WELSH FOLKSONGS a "Yr Hen Wr Mwyn" }<br>b "A ei d'r Perot" }<br>c "Moel y Wyddfa" }     | <i>Arranged by<br/>Mr. J. Lloyd<br/>Williams.</i>     |                                                  |
| MRS. HUGHES WILLIAMS.                                                                     |                                                   |                                                   | THE "CANORION" SOCIETY.                                                                 |                                                       |                                                  |
|                                                                                           |                                                   |                                                   | DUETT ... "Kingfisher Blue" ...                                                         | <i>A. W. Fiden</i>                                    |                                                  |
|                                                                                           |                                                   |                                                   | MRS. HUGHES WILLIAMS, LADY REICHEL.                                                     |                                                       |                                                  |
| CANTATA ...                                                                               | "Nocnia" ...                                      | <i>Goets</i>                                      | SONG "A Song of Thanksgiving" ...                                                       | <i>Frances Alltizen</i>                               |                                                  |
| THE PENRALLT CHOIR.                                                                       |                                                   |                                                   | MR. APPLETON.                                                                           |                                                       |                                                  |
|                                                                                           |                                                   |                                                   | PART SONG "Come, live with me" ...                                                      | <i>Sterndale Bennett</i>                              |                                                  |
|                                                                                           |                                                   |                                                   | THE PENRALLT CHOIR.                                                                     |                                                       |                                                  |

*Copi o raglen 'Glee party' a gynhaliwyd ym Mhenrallt, Mai 1908  
Prifysgol Cymru, Bangor (Casgliad J. E. Lloyd. Heb ei gatalogio)*

prentisiaeth wnaeth Lloyd Williams yn wyneb y diffyg diddordeb o du'r cerddorion proffesiynol yn y cyfnod hwnnw.

O ganlyniad i ddylanwad Reichel a'i wraig, derbyniodd y Canorion wahoddiadau lu i berfformio mewn gwahanol achlysuron o fewn y Coleg gan gynnwys cyngherddau, garddwestau a phartïon anffurfiol a gynhelid ym Mhenrallt. Ym mis Mai 1908 a 1909 gwahoddwyd hwy, ar gais y Fonesig Reichel, i berfformio mewn 'Glee Party' yn ei chartref.<sup>39</sup> Digon amrywiol ei naws oedd y rhaglen gan amlaf yn cynnwys unawdau lleisiol ac offerynnol gan wahanol unigolion a rhan-ganeuon gan Gôr Penrallt. Canwyd trefniannau o alawon Cymreig gan y Canorion ar y ddau achlysur a'r rheini wedi'u casglu gan aelodau'r gymdeithas.

Braidd yn wrthwynebus i'r syniad o berfformio'n gyhoeddus fu J. Lloyd Williams ar y dechrau a chyfaddefodd nad oedd yr adeg honno wedi sylweddoli gwerth yr holl waith a wnaethpwyd gan aelodau'r Canorion. Rhaid cofio fod hyn yn gydnaws â meddylfryd y cyfnod a'r cyfan yn gwbl newydd. Fel hyn y dywedodd mewn erthygl yn *Y Cerddor* ym 1933:

. . . nid oedd neb ohonom wedi llawn ddeffro i werth y canu . . .  
Daliem i gymryd yn ganiataol mai i gylch cymharol gyfyng o Gymry brwdfrydig oeddynt, braidd yn eithriadol eu chwaeth, yr oedd y pethau hyn yn ddiddorol; o'r tu allan i'r cylch hwnnw teimlai dyn ar ei galon ymddiheuro am ganu pethau mor syml a hen ffasiwn.<sup>40</sup>

Eto ar gais y Fonesig Reichel, gwahoddwyd y Canorion i gymryd rhan mewn garddwest yng ngerddi'r Coleg i gloi'r seremoni diwedd tymor ym mis Gorffennaf 1908.<sup>41</sup> Cynhelid hon yn flynyddol a thros fil o wahoddedigion yn ymuno yn y dathlu. Ceisiodd J. Lloyd Williams ddarbwylllo'r Fonesig Reichel i ailystyried ei chynlluniau gan y credai na fyddai gan unrhyw un ddiddordeb yng nghaneuon Cymreig syml a diorchest y criw bychan o fyfyrwyr. Fodd bynnag, er gwaethaf ei ofnau a'i bryderon, bu'r ymateb yn eithriadol o ffafriol:

A brass band was playing in the grounds, but as usual in such places, conversation filled the air. Our small group of 'Canorion' assembled quietly under a tree and started singing. There was a sudden hush. The guests drew nearer. Tune after tune were sung; and it was with difficulty that we were allowed to take off.<sup>42</sup>

Roedd y canu hwn yn rhywbeth cwbl newydd a'r arddull werinol mor

wahanol i unrhyw ddatganiadau clasurol oedd mor gyfarwydd i wrandawyr y cyfnod. Heblaw am addasu rhai geiriau, canwyd yr alawon yn eu ffurfiau gwreiddiol heb newid dim ar eu hynodrwydd na'u helfennau moddawl a'r cyfan yn ddigwyfeiliant. Gwelwyd bod hyn wedi apelio at y cantorion eu hunain yn ogystal â'u cynulleidfaoedd. Roedd J. Lloyd Williams yn arddel syniadau pendant ynglŷn â'r dull o ganu caneuon gwerin; pwysleisiodd fod yn rhaid geirio'n eglur, canu mewn dull syml a naturiol a hynny heb dynnu sylw o gwbl at y llais.<sup>43</sup> Cafwyd sawl cyfeiriad yn ei ddyddiaduron o'i feirniadaeth yn erbyn amrywiol berfformwyr yn ddiweddarach am nad oeddynt yn arddel yr un syniadau. Cafwyd enghraifft o hyn pan gyflwynodd ddarlith ym Mhorthmadog ym 1909 a chôr lleol yn perfformio rhai o'i drefniannau:

Lecture Porthmadog. Choir sang – 'Hen Erddygan', 'Moel yr Wyddfa' (badly), 'Rhywun' and 'Ffarwel i Blwy Llangower'. Soloist sang fairly, 'Hufen', 'Doli', 'Tra Bo Dau', 'Rhywun'. It is curious what a lack of taste there is even in the pronouncement of consonants



*Llun o Gwmni 'Y Canorion', Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor, 1908*  
*Prifysgol Cymru, Bangor: 'Dramatic Societies and Miscellaneous Groups'*  
*OSA 6/21*

and the length of the vowels, and how very ineffectively pieces can be sung even by good singers, or rather singers with good voices. ‘Rhywun’ – fel ffon – no emphasis. ‘Ffarwel iti Mari fy mun’ – chopped up and staccatoed. This requires a lot of attention. I am much afraid there is no merit in my arrangements only in the rendering of them by my own students.<sup>44</sup>

Uchafbwynt gweithgarwch y Canorion oedd y perfformiad o’r ddrama-gerdd, neu’r chwareuawd gerddorol *Y Canorion* a berfformiwyd am y tro cyntaf yn ystod dathliadau Gŵyl Ddewi mis Mawrth 1908. Llew Tegid fu’n gyfrifol am lunio’r sgript a J. Lloyd Williams fu’n llunio trefniannau o’r caneuon gwerin. Gwelwyd hyn fel ymgais i ddwyn sylw at ffrwyth llafur cymdeithas y Canorion drwy roi datganiad ar lafar ac ar gân o’r amrywiol ganeuon a gasglwyd gan yr aelodau. Roedd oddeutu pump ar hugain o aelodau i’r cast a golygai hyn fod myfyrwyr eraill, gan gynnwys rhai merched, wedi ymuno gydag aelodau o’r Canorion ar gyfer y perfformiad. Bu’r fenter yn llwyddiant ysgubol a rhoddwyd ail berfformiad yn ystod dathliadau Gŵyl Ddewi 1912.

Mae’n dra thebygol mai dyma’r cyfnod pan ddaeth cymdeithas y Canorion i ben; yn anffodus, dros gyfnod byr o amser yn unig y bu’r Gymdeithas yn bodoli ac roedd prinder casglyddion wrth feddwl am y gwaith maes aruthrol oedd angen ei gyflawni. Eto i gyd bu eu cyfraniad yn hynod werthfawr. Yn sgil llwyddiant y Gymdeithas hon yng Ngholeg y Gogledd ymdrechwyd i sefydlu cymdeithasau cyffelyb mewn colegau eraill gan gynnwys Aberystwyth, Caerdydd a Lerpwl, a hynny’n bennaf o dan faner Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru. Teg fyddai honni na fu’r cymdeithasau hyn mor llwyddiannus â’r gymdeithas wreiddiol ym Mangor ac mae hynny i’w briodoli mae’n debyg i ysbrydoliaeth a brwdfrydedd heintus J. Lloyd Williams ei hunan.

Fodd bynnag, nid oedd pawb o’r un farn ynglŷn â gwerth yr hyn a gyflawnwyd gan Lloyd Williams fel Cyfarwyddwr Cerdd ac fel arweinydd y Canorion. Agwedd feirniadol a gafwyd o du’r cerddorion proffesiynol tuag at waith cymdeithas y Canorion ar y dechrau ac ar wahân i Reichel, prin oedd y gydnabyddiaeth a’r gefnogaeth a gafwyd o du’r Coleg. Dadrithiwyd Lloyd Williams yn sgil hynny, ymddiswyddodd fel Cyfarwyddwr Cerdd ym 1913, gadawodd y Coleg ym Mangor ym 1914 ac fe’i penodwyd yn Athro Adran Botaneg Coleg Prifysgol Cymru Aberystwyth yn Ionawr 1915.



Nid oes amheuaeth nad oedd J. Lloyd Williams yn siomedig na sefydlodd adrannau cerdd y Brifysgol yng Nghymru yn ganolfannau i astudio cerddoriaeth Gymreig a theimlodd fod Bangor wedi colli'r cyfle i fod ar flaen y gad. Cyfeirir at ei weledigaeth yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Brenhinol ar Addysg yng Nghymru ym 1917 – adroddiad ydoedd sy'n ymdrin â gwahanol ddulliau o ddiwygio'r system addysg o fewn prifysgolion gan gynnwys y ddarpariaeth gerddorol. Mynegodd yr angen am ysgol i astudio hanes a phriodweddau cerddoriaeth Gymreig – credai mai dyma'r unig ffordd o sicrhau parhad y traddodiad gwerin, ennyn cydnabyddiaeth haeddiannol i'r maes fel y byddai cyfansoddwyr y dyfodol yn cael eu trwytho yn yr elfennau Cymreig.

Er na ddatblygodd cymdeithas y Canorion na'r adran Gerdd ym Mangor i'r graddau y byddai Lloyd Williams wedi'i ddymuno, ni ellir anwybyddu'r ffaith fod cyfraniad y gwerinwr ysgolheigaidd hwn wedi bod yn aruthrol i hanes y traddodiad gwerin ar droad yr ugeinfed ganrif. Cymaint tlotach fyddai'r byd canu gwerin yng Nghymru oni bai am y trobwynt allweddol hwnnw ym mywyd Lloyd Williams yn y cyfnod a dreuliodd ym Mangor – cyfnod a oedd yn llawn gobeithion ac a welodd blannu hadau'r ymwybyddiaeth newydd o werth a phwysigrwydd y traddodiadau cerddorol Cymreig ar adeg a fu mor dyngedfennol yn hanes a datblygiad cerddoriaeth werin yng Nghymru.

## NODIADAU

- 1 Mae'r erthygl hon yn seiliedig ar bapur a draddodwyd yng Nghynhadledd Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, Llanrwst, Medi 2003.
- 2 Bu J. Lloyd Williams yn Brifathro Ysgol Elfennol Garndolbenmaen rhwng 1875 a 1893. O ganlyniad i'w ddiddordeb arbennig mewn cerddoriaeth, bu'n gyfrifol am arwain côr cymysg yn yr ardal a fu'n cystadlu o dan yr enw Lladron y Garn; bu hefyd yn gyfrifol am sefydlu côr plant yn yr ardal. Roedd yn darparu hyfforddiant lleisiol i unigolion a bu'n cynnal dosbarthiadau nos i ddysgu trigolion yr ardal i ddarllen cerddoriaeth.
- 3 LIGC, Casgliad John Lloyd Williams 79. Darlith yn dwyn y teitl 'Dylanwad Canu ar Foes a Bywyd Cymru' a draddodwyd gan J. Lloyd Williams yn Rhydychen ym 1929.
- 4 **Syr Harry Reichel (Henry Rudolph)** (1856–1931)  
Brodor o Belfast yng Ngogledd Iwerddon ydoedd er bod y teulu yn hannu o'r Almaen. Derbyniodd ei addysg yn Christ's Hospital Llundain cyn ennill ysgoloriaeth i astudio am radd yn y Clasurol yng Ngholeg Balliol, Rhydychen. Penodwyd ef yn Brifathro cyntaf Coleg y Gogledd, Bangor ym 1884 ac yntau'n ddim ond saith ar hugain mlwydd oed, a

pharhaodd yn y swydd hyd 1927. Urddwyd ef yn farchog yn ystod seremoni gosod carreg sylfaen adeiladau newydd y Coleg ym 1907. Ymdrechodd i ddysgu Cymraeg er mwyn ymdoddi i'r gymdeithas Gymreig yn y Coleg a thu hwnt, ac ymddiddorai'n fawr mewn cerddoriaeth. Bu'n ffigwr blaenllaw yn hanes sefydlu Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru a bu'n hynod gefnogol i'r datblygiadau a welwyd ym maes canu gwerin yng Nghymru yn nechrau'r ugeinfed ganrif.

5 **Y Fonesig Charity Mary Reichel, Pilkington gynt** (1894–1911)

Fe'i ganed yn swydd Westmeath, Iwerddon a phriododd Harry Reichel ym 1894, y ddau yn gyfeillion ers dyddiau eu plentynod. Ymddiddorai'n fawr mewn cerddoriaeth a bu'n bennaf gyfrifol am sefydlu cymdeithas y Bangor Musical Club ar gyfer pobl leol a ddymunai glywed perfformiadau o gerddoriaeth siambr. Rhoddodd nifer o ddatganiadau unigol mewn cyngherddau yn y Coleg ym Mangor a'i *repertoire* yn cynnwys amrywiaeth o ganeuon traddodiadol gwahanol wledydd ynghyd â chaneuon celf cyfoes.

6 Teitl llawn y gwaith yw *Aelwyd Angharad, neu Hwyrnos Lawen Llwyngwern: Chwareugan yn dangos dull ar arferion bywyd gwledig Cymru Fu*.

7 **Lewis Davies Jones 'Llew Tegid'** (1851–1928)

Ganwyd ef ar fferm Ffriddgymen ger y Bala; cafodd ei addysg yn Ysgol Frutanaidd y Bala a'r Coleg Normal ym Mangor. Bu'n athro am gyfnod yn Ysgol Cefnfaes, Bethesda ac yna yn Ysgol y Garth, Bangor am gyfnod o saith mlynedd ar hugain. Ym 1902 penodwyd ef yn ysgrifennydd trefniadol pwyllgor trysorfa adeiladu Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor, a bu'n gyfrifol am godi arian i adeiladu'r Coleg.

8 Williams, J. Lloyd: *Atgofion Tri Chwarter Canrif*, Cyfrol IV, (Llundain, 1945), tt. 208–9.

9 **Dr Roland Rogers (1847–1927)**

Brodor o West Bromwich. Enillodd radd Doethuriaeth mewn Cerddoriaeth ym Mhrifysgol Rhydychen ym 1875. Penodwyd ef yn organydd Eglwys Gadeiriol Bangor ym 1871 ac ystyriwyd ef ymhlith organyddion gorau'r wlad yn y cyfnod hwnnw. Bu'n athro cerdd rhan-amser yn y Coleg ym Mangor hyd at 1904 ac yn Ysgol Rydal Mount, Bae Colwyn. O dan ei arweinyddiaeth enillodd Côr Mawr Bethesda y brif wobwr mewn tair Eisteddfod Genedlaethol yn olynol rhwng 1882 a 1884 ac ef hefyd oedd arweinydd Côr Eisteddfod Genedlaethol Bangor ym 1874. Cyfansoddodd amryw o weithiau corawl gan gynnwys anthemau, cantawdau, emyn-donau a rhanganau.

10 Llsg. Bangor (Archifau PCBangor): 'UCNW The Students Handbook', Adroddiad ysgrifennydd y Gymdeithas Gorawl, Sesiwn 1903–1904, t. 36 a Sesiwn 1905–1906, t. 40.

11 Williams, J. Lloyd: 'Alawon Gwerin Cymru', *Y Cerddor*, Cyfrol III, rhif 4, Ebrill (Caerdydd, 1933), t. 100.

12 *ibid.*, t. 100.

13 *ibid.*, t. 101.

14 Rhoddwyd statws arbennig i'r achlysur hwn gan ei fod ymhlith dwy seremoni frenhinol arall a ystyriwyd yn arwyddocaol yn hanes Cymru ar y pryd, sef Arwisgo Tywysog Cymru yng Nghaernarfon ar 13 Gorffennaf, a gosod carreg sylfaen Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth ar 15 Gorffennaf.

- 15 Tarddodd yr enw o gymdeithas Gymraeg a ffurfiwyd yn Llundain gan John Parry 'Bardd Alaw' ym 1820. Amcan y gymdeithas honno oedd datblygu'r grefft o ganu gyda'r tannau.
- 16 **William Ellis Jones** (1883–1971)  
Ganwyd ef yn Nhŷ'n Foelas, Llangwm ond symudodd y teulu i fyw i Fryngwyn, Llanegryn yn sgil penodiad ei dad, Owen Jones, yn oruchwyliwr ar Stad y Wyniaid, Peniarth ym 1890. Derbyniodd Ysgoloriaeth i Goleg y Gogledd ym Mangor cyn dilyn galwedigaeth yn ddiweddarach ym Manc y Midland. Etifeddodd ddawn gerddorol ei dad a bu'n gyfrifol am arwain a hyfforddi corau mewn nifer o ardaloedd. Ef a fu'n cyfarwyddo perfformiad o *Y Canorion* gan Gwmni Glannau Tegid, y Bala ym 1911.
- 17 Jones, William Ellis: 'Greetings/Cyfarchion', *Rhaglen Dathlu Hanner Can Mlwyddiant Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, (Lerpwl, 1958), t. 7.
- 18 **John Morris** (1887–1977)  
Ganwyd ef ym Manod, Blaenau Ffestiniog yn un o bump o blant. Bu'n fyfyrwr yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor, ac enillodd radd B.Sc. mewn Mathemateg ym 1910 cyn dilyn galwedigaeth fel athro mewn ysgolion yn Ffestiniog, Brynrefail a Chaernarfon. Penodwyd ef yn Brifathro Ysgol Ganolraddol Bangor ym 1919 cyn cael swydd fel Arolygwr Ysgolion ym 1927. Bu'n weithgar iawn gyda chymdeithas y Canorion ym Mangor fel casglwr a pherfformiwr. Casglodd hyd at ddeugain o ganeuon o'i ardal enedigol. Yn ystod Cwrs Penwythnos Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn y Barri ym 1965 traddododd ddarlith yn ymwneud â'i brofiadau fel casglwr.
- 19 Seiliwyd y dyddiadau hyn ar yr hyn a gofnodwyd yn *University of Wales: The Guild of Graduates: 1950–1951* (Caerdydd, 1950), sy'n nodi ym mha flwyddyn y daeth y myfyrwr i'r coleg a dyddiad eu graddio.
- 20 Llsg. Bangor (Archifau PCBangor). 'The Origin and Development of College Clubs and Societies: Y Canorion', 'University College of North Wales – The Students Handbook', Sesiwn 1908–1909. Owen, Morris: 'Y Canorion', *The Magazine of the UCNW*, Cyfrol XVII, rhif 2, Mawrth (Bangor, 1908), t. 43.
- 21 **John Owen Jones 'Owen Bryngwyn'** (1884–1972)  
Brodor o Langwm yn wreiddiol a brawd i William Ellis Jones. Enillodd ysgoloriaeth i Goleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor, a graddiodd mewn Cemeg Amaethyddol. Rhoddai ddatganiadau unigol yn gyson mewn cyngherddau gan Gymdeithas Gorawl y Coleg a chymdeithas y Canorion. Treuliodd gyfnod o bymtheng mlynedd fel athro gwyddoniaeth yn Ysgol Daventry, Northampton ac yn ddiweddarach fel athro a phrifathro yn Ysgol Newport, Essex. Ym 1922 penderfynodd adael y byd addysg a mynd i'r Coleg Cerdd Brenhinol yn Llundain a dilyn gyrfa broffesiynol fel unawdydd. Dychwelodd i ddysgu drachefn ym 1939 a chael ei benodi'n athro gwyddoniaeth yng Ngholeg Epsom ond roedd yn parhau i gadw cyngherddau. Bu'n darlithio'n fynych ar gerddoriaeth werin gan ddatgan ei ddyled i J. Lloyd Williams am ddeffro ymwybyddiaeth ynddo o werth caneuon traddodiadol Cymru.
- 22 **Morris Owen**  
Brodor o Flaenau Ffestiniog. Derbyniodd radd M.Sc. yng Ngholeg y Brifysgol Bangor ym 1908. Bu'n ysgrifennydd cymdeithas y Canorion. Ychydig o wybodaeth a dderbyniwyd amandano ar ôl ei gyfnod yn fyfyrwr ond deallir iddo dreulio cyfnod yn India.

23 **Thomas Arthur Jones** (1885–1957)

Ganwyd ef ym Mrynsiencyn, Ynys Môn. Bu'n ddisgybl yn Ysgol Ramadeg Llangefni cyn dilyn cwrs gradd mewn Cymraeg yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor a graddio ym 1908. Yn ddiweddarach, aeth i Goleg y Bala ac ordeiniwyd ef yn Weinidog. Treuliodd gyfnodau yn gwasanaethu yng Ngwalchmai, Llangristiolus, Lerpwl, Corwen a Bethesda. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, penderfynodd adael y Weinidogaeth i ddilyn gyrfa ym myd y gyfraith a dychwelyd i Fôn i weithio.

24 **John Williams** (1856–1917)

Arweinydd corawl ac athro lleisiol amlwg o Gaernarfon. Derbyniodd wersi gan Robert Roberts, organydd Eglwys Gadeiriol Bangor, ac yn ddiweddarach gyda Dr Roland Rogers. Penodwyd ef yn organydd a chôr-feistr Eglwys Crist, Caernarfon ym 1880. Enillodd enw da fel arweinydd corawl yn ifanc iawn a daeth côr Capel y Wesleaid Caernarfon i'r brig mewn nifer o Eisteddfodau Cenedlaethol o dan ei arweinyddiaeth. Ef oedd arweinydd Côr Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon ym 1886, 1894 a 1906 ac ym Mae Colwyn ym 1910. Bu hefyd yn gyfrifol am y Caernarfon Operatic Society a Chôr Meibion Brenhinol Eryri.

25 Reichel, H. R.: 'Welsh Folk-Song', *Welsh Folk-Song Society: Papers read at Caernarvon, August 22nd, 1906 on Folk-Song, by A. P. Graves Esq. and Principal H. R. Reichel M.A., LL.D., with Draft of Constitution, Rules, &c., of the Society* (Caernarvon, 1906).

26 **Thomas Roberts**

Yn ôl cofnodion y Coleg Normal, Bangor daeth Thomas Roberts yn aelod o staff y Coleg ym 1910 sy'n awgrymu felly mai dyma'r adeg y daeth yn aelod o gymdeithas y Canorion. Darlithydd yn yr Iaith Gymraeg a Llenyddiaeth Cymru ydoedd hyd nes y penodwyd ef yn Is-Brifathro'r Coleg ym 1920 gan barhau yn y swydd hyd 1949.

27 **James Griffith Williams**

Y darlithydd cyntaf i ddarparu gwersi Cymraeg yn y Coleg Normal, Bangor rhwng 1908 a 1916 yn sgil penderfyniad Adran Gymreig y Bwrdd Addysg i gynnwys Cymraeg fel rhan o'r cwricwlwm. Treuliodd gyfnod yng ngwlad Belg yn astudio dulliau addysgu dwyieithog a chyhoeddwyd adroddiad ganddo'n ddiweddarach yn ymdrin â'r pwnc o dan y teitl 'Mother Tongue and Other Tongue'. Ymunodd â'r lluoedd arfog ym 1916 ac fe'i lladdwyd yn Ffrainc.

28 **Hugh David Jones** (g. 1887)

Ganwyd ef yn y Gaerwen, Ynys Môn. Treuliodd ddwy flynedd fel disgybl-athro mewn ysgol yng Nghaergybi cyn dod yn fyfyrwr i'r Coleg Normal ym Mangor ym 1906. Bu'n athro ysgol yn Llundain am chwe blynedd cyn ymuno â'r Ffiwsilwyr Brenhinol Gymreig fel swyddog ym 1915. Wedi'r rhyfel, bu'n dysgu ym Mhengan ac yn Abertawe. Parhaodd â'r gwaith o gasglu alawon gwerin ar ôl gadael Bangor gan ddefnyddio'r ffonograff.

29 **John Gwynfryn Roberts**

Prin yw'r wybodaeth amdano ond deellir iddo raddio mewn Cymraeg yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor, ym 1911.

30 **Robert Ellis Vaughan-Roberts**

Yn wreiddiol o Gapel Celyn, y Bala, derbyniodd radd B.Sc. mewn Cemeg ym 1910 a dilyn gyrfa athro wedi hynny. Daeth yn naturiaethwr adnabyddus. Cyhoeddwyd tair alaw a gofnododd yn ystod ei gyfnod fel athro yn Llanarmon-yn-Iâl yn *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru* ym 1925.

31 **Thomas Trefor Jones**

Brodor o Glawddnewydd ger Rhuthun. Bu'n ddisgybl yn Ysgol Uwchradd Dinbych ac yna dilynodd gwrs Diwinyddiaeth yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor. Ordeiniwyd ef yn weinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd ac aeth i Stockport i wasanaethu. Ymhen rhai blynyddoedd newidiodd gwrs ei yrfa a phenderfynu astudio meddygaeth ym Mhrifysgol Manceinion. Bu'n feddyg teulu ym Manceinion ac yn ddiweddarach yn Llanfyllin cyn ymddeol a dychwelyd i fro ei febyd. Ef oedd awdur un o'r cyfeirlyfrau cyntaf i'w cyhoeddi yn yr iaith Gymraeg ar serch a rhyw, sef *Ar Lwybr Serch* (Dinbych, c.1945).

32 **Gwilym Arthur Tegid Jones**

Graddiodd yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor, ym 1909. Lladdwyd ef yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

33 **Richard Jones**

Prin iawn yw'r wybodaeth amdano ond fe'i lladdwyd ef yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

34 **R. Alun Richards**

Brodor o Nantglyn ond aeth i fyw i Canada.

35 **Wicklow Temperance, Stryd Fawr, Bangor**

Prin yw'r wybodaeth a ddaeth i law ynglŷn â'r adeilad hwn ond deallir ei fod wedi ei leoli nepell o Gapel Pendref ar y Stryd Fawr ym Mangor. Edrychwyd am gyfarwyddyd yn y *Slater's Directory* a Chofrestr Plwyf Bangor a gwelwyd cyfeiriad at Wicklow House a oedd wedi ei leoli rhwng tŷ o'r enw Pendref ar un llaw a 63 Stryd Fawr ar y llaw arall. Credir mai addoldy ar gyfer Mwslemiaid sy'n sefyll ar y safle erbyn hyn.

36 Morris, John: 'Y Canorion a'r Casglu Cynnar', *Canu Gwerin*, rhif 13 (Penygroes, 1990) t. 6. Dyfyniad allan o'r ddarlith a draddodwyd gan John Morris yn ystod Cwrs Penwythnos Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn y Barri, 1965.

37 Williams, J. Lloyd: 'Welsh National Melodies and Folk-Song', *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, Sesiwn 1907–1908 (London, 1909).

38 LIGC, Casgliad J. Lloyd Williams 144.

39 Cynhelid y partïon hyn yng nghartref Reichel a'i wraig ym Mhenrallt ar gyfer oddeutu pymtheg i ddeunaw o wahoddedigion, y mwyafrif ohonynt yn ferched. Nosweithiau o gymdeithasu oeddynt gyda phwyslais ar berfformio alawon gwerin yn arbennig caneuon Gwyddelig. Roedd yn arferiad ganddynt i argraffu rhaglen y noson ar bamffled bychan a hynny'n rhoi statws i'r amgylchiad.

40 Williams, J. Lloyd: 'Alawon Gwerin Cymru', *Y Cerddor*, Cyfrol III, rhif 5, Mai (Caerdydd, 1933), t. 142.



- 41 Yng ngerddi gwasgarog yr Hen Goleg y cynhelid y garddwestau blynyddol hyn ar gyfer dros fil o wahoddedigion, yn fyfyrwyr, staff a rhieni. Cynhelid hwy wedi'r seremoni ddiwedd tymor a hynny ar batrwm garddwestau mawreddog cyffelyb ym Mhrifysgolion Lloegr gyda phwyslais ar yr ochr foesgar. Roedd adloniant yn cael ei ddarparu yno a gwahoddwyd unigolyn amlwg i annerch y gwahoddedigion.
- 42 Williams, J. Lloyd: 'The Welsh Folk-Song Society', *Y Cerddor*, Cyfrol I, rhif 19, Medi (Caerdydd, 1931), t. 314.
- 43 Yn ddiweddarach, wedi i J. Lloyd Williams adael Bangor, traddodwyd sawl darlith a chyhoeddwyd erthyglau ganddo yn ymwneud â'r dull cywir o ganu caneuon gwerin. Pwysleisiodd fod yn rhaid deall yr iaith Gymraeg a'i holl briodweddau er mwyn ei chanu'n gywir a chondemniodd sawl canwr proffesiynol am ganu cân werin mewn arddull glasurol.
- 44 LIGC, Casgliad J. Lloyd Williams 114; rhan o ddyddiadur o'i eiddo, 13 Ionawr 1909.

# GEIRIAU NEWYDD, HEN FESURAU

## Myrddin ap Dafydd

Mae hen draddodiad yn debyg iawn i hen drôns – mae 'na beryg os ydi o'n rhy dynn; mae 'na beryg hefyd os ydi o'n rhy llac.

Rheidrwydd unrhyw dreftadaeth ddiwylliannol yw ein bod yn ei chasglu ynghyd, ei mesur, ei diffinio, ei dadansoddi a'i diogelu. Byddwn yn sefydlu egwyddorion, rhestru rheolau, nodi'r hyn sydd o'i mewn a'r hyn sydd y tu allan iddi. Gellir creu cystadlaethau yn seiliedig ar reolau'r elfen honno o'n diwylliant ac os oes rheolau, rhaid beirniadu a chystadlu o fewn y rheolau.

Beth felly yw 'traddodiad' bellach? Ai rhywbeth ar gyfer cystadlaethau yn unig yw canu a dawnsio gwerin? Ai rhywbeth i'w bwysio a'i fesur o fewn rheolau penodol yw cerdd dafod a cherdd dant? Yn fy nghalon i, pethau byw yw'r pethau hyn i gyd – ysbryd byw, nid gwerslyfrau; clai, nid tjeina caled; stylldod, nid dodrefn cŵyr yn y parlwr gorau.

Mae unrhyw draddodiad byw yn gorfod tyfu ac mae unrhyw dyfiant yn gorfod gweld ymestyn dros y cloddiau cyfarwydd i feysydd newydd. Ond, wrth reswm pawb a phopeth, yr hen draddodiad cyfoethog ac annwyl sy'n dal i wrteithio'r gwreiddiau, debyg iawn.

Pan ddechreuais ddysgu sut i fynegi fy hun ar gerdd dafod, amrwd a thrwsgwl iawn oedd y llinellau. Yn bersonol, mi ddysgais lawer iawn drwy sgwennu baledi a chaneuon ar gyfer grwpiau ac unigolion oedd wedyn yn eu perfformio yn fyw ac ar ddisg. Dysgu'r berthynas rhwng y geiriau a'r gynulleidfa yw un o elfennau pwysicaf addysg bardd ac roedd troi at fesurau fel y triban a'r hen benillion am wersi ar sut i fydryddu'n uniongyrchol a llyfn yn bwysig iawn yn fy mhrofiad i.



*Myrddin ap Dafydd*

Un o'r mesurau llai cyffredin yng nghasgliad T. H. Parry-Williams o'r hen benillion yw'r mesur pum llinell – pennill telyn traddodiadol ac un llinell ychwanegol yn gynffon iddo yn odli â'r ddwy linell olaf. Dyma fesur 'Marwnad yr Ehedydd' wrth gwrs – cân ddaeth i 'nghlustiau i gyntaf pan glywais Ac Eraill ac Edward H yn ei chanu yn nechrau saithdegau'r ganrif ddiwethaf. Bu Mynediad am Ddim a Plethyn yn ei llwyfannu'n ddiweddarach ac erbyn i mi gyrraedd y Coleg ger y Lli, roedd yn gân dafarn boblogaidd yn y Blingwyr a'r Hen Lew Du.

Yng nghanol y morio hwnnw y gwnaeth Rod Barrar un o'i sylwadau bachog. Llanc o Nelson oedd Rod ac yn llawn hanes, gwleidyddiaeth a thân, waeth beth fyddai'r pwnc. Ei sylw dros ei strongbow y noson honno oedd: 'Nage cân am adar yw hi! Cynan sgwennws y penillion erill hynny – blydi rybish am 'gornchwiglan' a tylwyth teg. Ond mae'r pennill cyntaf yn y gân yn un traddodiadol – y pennill hynaf o unrhyw gân sy'n bod yn y Gwmrâg, medden nhw 'twel. Owain Glyndŵr oedd yr hedydd ac roedd y gân yn cael ei chanu gan ei gefnogwyr pan oedd hi'n rhy beryglus iddyn nhw hyd yn oed ddefnyddio enw Owain Glyndŵr. Dyna pam eu bod nhw'n ei alw'n hedydd. A lle mae'r hedydd yn byw? Lan ar y mynydd! Cân am Glyndŵr ar herw yw hi ac os wyt ti isie rhywbeth i'w wneud, sgwenna benillion am hynny i fynd 'da'r pennill cyntaf!'

Dyna werth addysg prifysgol. O droi at y llyfrau, mi fedrwn gadarnhau mai yng nghasgliad Soley Thomas, Eisteddfod Caerfyrddin 1911 y cofnodwyd y gân yn wreiddiol – ac yn wir, dim ond y pennill cyntaf a roed ar glawr bryd hynny.

Mae'n rhaid fod Cynan wedi'i gyfareddu gan y pennill ac wedi ychwanegu ato. Beth yw ystyr ychwanegiadau Cynan? Mae 'na lawer o adar ynddyn nhw, yn ymgynnull i angladd telynegol yr hedydd. Sut dylid canu'r gân felly? Roedd Ac Eraill ac Edward H yn ei chanu'n ymosodol a heriol – bron fel cân ryfel. Mae hefyd yn cael ei chanu'n araf, swynol, dorcalonnus mewn gwyliau ac eisteddfodau.

Gyda'r pethau hyn yn mwydro fy mhen, mi gefais sgwrs gyda Meredydd Evans mewn Steddfod yr Urdd tua diwedd y saithdegau. Diolch iddo am gadw copi o'r ohebiaeth fu rhyngom, gyda'i ofal arferol. Cynigiodd yntau esboniad arall ar y pennill gwreiddiol – mai pennill ffwlbri oedd o, yn arddull blingo'r lleuen honno, neu benillion y Saith Rhyfeddod. Mae 'na ryweth swrealaidd a doniol mewn darlun o hedydd bychan wedi marw a

bod angen anfon ‘gwŷr ag arfa’ i’w nôl adra. Mae’r adar yn destunau poblogaidd i’w cynnwys mewn penillion hurt yn y Gymraeg yn aml:

Mae’r gwcw wedi marw  
A’r boda rhwng y bedw  
A’r adar mân yn fawr eu cân  
Wrth weld y frân yn feddw.

Eto, ni ellid honni bod penillion Cynan yn gwneud lol fel hyn. Ydi’r ‘gân newydd’ yn gweithio felly?

Erbyn deall, Dora Herbert Jones – ‘Brenhines Powys’ ei hun – a nododd fod yr hedydd yn symbol o arweinydd ar herw, yn union fel y mae’r ‘Rhosyn Du’ yn cyfeirio at wladgarwr ar ffo mewn cân enwog o Iwerddon. O fynd yn ôl at y pennill gwreiddiol eto, mae ’na amwysedd yn y llinell ‘pe gwyddwn i mai gwir y geirïe’ sy’n awgrymu nad oedd neb yn siŵr a oedd o wedi marw ai peidio. A dyna ni’n ôl gyda myth Glyndŵr unwaith eto.

Roedd y cywyddau brud yn cyfeirio at y Mab Darogan fel ‘tarw’ a ‘brân’ a phob math o symbolau eraill. Mae’n bosib felly fod yr ‘hedydd’ o fewn y traddodiad hwnnw. Dyna’r rhan o’r traddodiad a apeliodd ataf i. Mi luniais benillion i Plethyn chwarter canrif yn ôl oedd yn ceisio mynegi’r ysbryd hwnnw. Ond yna, ar gyfer taith y beirdd i ddathlu Gwrthryfel Glyndŵr yn 2000, mi ddaeth yr hen gân yn ôl i aflonyddu arnaf i eto. Roedd yr hen feirdd yn canu mawl a chanu marwnad. Mae sawl un wedi canu mawl i Owain – ond nid oes yr un farwnad iddo. Mae ’na symboliaeth gref yn hynny. Mwy o ffidlan efo’r hen draddodiad efallai, ond fel y dywedais i ar y dechrau, does wîw i’r hen drôn’s ’na fod yn rhy dynn. Rhaid inni ddal i gynhyrfu’r galon sy’n curo heddiw ac felly nid ‘Marwnad yr hedydd’ y tro hwn, ond ‘Mawl yr hedydd’.



*Dr Meredydd Evans*

### **Mawl yr hedydd**

Mi a glywais fod yr hedydd  
Wedi marw ar y mynydd  
Ac mi ochneidiai gŵr y geiria  
Na fydd mwy o wŷr ag arfa  
Pan gyrchwn gorff yr hedydd adra.

Erbyn hyn mae'r haf hinfelyd  
Wedi troi i'r niwl ers meityd  
A phrin yw'r un sydd ar adenydd  
Yn herio'r dydd, waeth be fo'r tywydd,  
A chodi'i gân uwch ben y gweunydd.

Mi a glywais rai yn sibwrdd  
Fod y nyth yn awr yn siwrdd,  
Bod y bwncath ar y bannau  
A bod holl dywyllwch angau  
Yn ei lygaid a'i grafangau.

Mae 'na lygaid ar Bumlumon,  
Mae 'na hela 'Nghoed Glyn Cynon,  
Does 'na'm deryn rhydd ym Mawddwy,  
Yr un carw yn Nanconwy,  
Na'r un eog yng Nglyndyfrdwy.

Ond mi glywais air bach tawel,  
Dim mwy na sgwrs y grub a'r awel,  
Oedd yn deud, fel deud telyneg,  
Heb un sill ohoni'n Saesneg,  
Fod yr hedydd eto'n hedeg.



# CÂN YR HEN FARCUTAN BENLLWYD

Daniel Huws

Flynnyddoedd lawer yn ôl (ar gefn papur y medraf ei ddyddio i 1969) gwneuthum gopi teipysgrif o eiriau'r gân a gyhoeddir yma, a chynnig ar ei halaw. Yr oedd y gân yn un o'r cannoedd y copïais eu halawon o lawysgrifau John Lloyd Williams yn y cyfnod hwnnw. Yn ogystal â'r alaw, yn yr achos hwn mi gopïais eiriau'r gân yn llawn oherwydd eu hyfrydwch a'u diddordeb. Mae'r gerdd yn un sy'n sefyll yn ei gorffenedigrwydd ymhlith goreuon holl ganeuon llafar gwlad Cymru, yn gyfuniad o gân serch y carwr penllwyd a thaith o gwmpas Môn (bwriwn) yng nghwmni rhyw adaregydd sylwgar.



*Daniel Huws*

Mae'r geiriau i'w cael mewn copi glân yn llaw H. D. Jones o dan y pennawd: 'Words of "Mesur Meinfwyn" as sung by Mr Hugh Thomas of the Holland Arms Hotel, Gaerwen, Anglesey. Gwyliau Nadolig 1912 Gaerwen.' Ar waelod y copi ceir y nodyn 'Heard by H. D. Jones and sung by him to M. D. Time a little difficult to transcribe.', yn llaw Mary Davies. Ar ddalen arall y mae pum ymgais yn llaw Mary Davies i nodiannu'r alaw, yn dystiolaeth o'r anawsterau.<sup>1</sup> Atgynhyrchir y pum ymgais yn yr atodiad i'r ysgrif hon, ac yma, yn dilyn, y synthesis tebycaf y medrwn ei wneud ohonynt.

Yr oedd H. D. Jones, Gaerwen, yn aelod o Gymdeithas Alawon Gwerin Cymru a bu hefyd yn aelod o'r Canorion, a Mary Davies hithau, a dyfynnu geiriau Wyn Thomas, yn *grande dame* y Gymdeithas ac yn un o'i phrif hyrwyddwyr.<sup>2</sup> Trwy ei dwylo hi, yn ddiau, y daeth y copïau o'r geiriau a'r alaw i ofal John Lloyd Williams a thrwy hynny yn rhan o'r archif lawysgrifol bwysicaf sydd gennym o ganu gwerin Cymru.

Yn ôl y cofnodion Cyfrifiad, gwraig gwesty Holland Arms yn 1891 a 1901,

a'r penteulu, oedd Jane Thomas, hithau'n wraig ddibriod, yn 35 oed yn 1891. Yn trigo yno gyda hi yr oedd dwy nith a nai, un nith, Mary, erbyn 1901 yn 18 oed ac yn 'hotel barmaid', a'r un arall, Margaret, yn 20 oed, yn 'school assistant mistress', ac Owen, y nai, yn 25 oed, yn 'grocer and flour dealer'. Gellir dyfalu mai brawd i Jane a thad y neiaint, heb fod sôn amdano yn yr Holland Arms adeg y ddau Gyfrifiad, oedd Hugh Thomas, canwr y gân. Ganed Jane ym mhlwyf Llanfihangel Ysgeifiog (sy'n cynnwys Gaerwen) a'r neiaint ym mhlwyf Llanidan (lle saif yr Holland Arms, bron ar y ffin rhwng y ddau blwyf). Y tebyg, felly, yw nad dyn dŵad oedd Hugh Thomas. 'Miss Thomas' oedd yn dal yn wraig yr Holland Arms yn 1916.<sup>3</sup>



*Gwesty Holland Arms 2004*



*Gwesty Holland Arms 2004*

## CÂN

1. Clywch hanes hen farcutan benllwyd  
Trwy amal i rôl yn y ddôl a ddaliwyd  
A chyn ei dal yn hedeg bronnydd  
Ac yn cyrsio hyd wyneb corsydd  
A'i hedfan falch fel gwalch o'r coedydd.
2. Mi euthum dro trwy'r bronnydd brwynog  
Lle'r oedd cyniglod lliwgar ddigon  
Ond ofni wnes i yr ai rheiny  
Â mi dro annoeth i drueni  
Fel na chawn olwg ar liw'r lili.
3. Mi euthum dro trwy'r coedydd mawrion  
Yn lle'r oedd nythod cryrod gleision  
Ond ofni wnes i yr ai rheiny  
Â mi dro annoeth i drueni  
Ar hyd y ffosydd rwyn cyffesu.
4. Rhois dro trwy'r goedwig tewfrig isal  
Lle'r oedd y petris yn byw'n ddiotal  
Ac un o'r rhain ni chawn dros lwgu  
Na byddai'u tad a'u mam nhw'n codi  
Yn chwyrn a chwannog i'm dychrynnu.
5. Rhois dro trwy'r gwrychoedd a'r drain gwynion  
Lle'r oedd piod sionc a brithion  
A chwman wisgi oedd gan y rheiny  
Ag yn chwannog i drychwenu [drychwanu]  
Nid eis i ymorol am y rheiny.
6. Rhois dro trwy â'r bryniau a'r bronnydd  
Lle'r oedd hedyddion llwydion llonydd  
A phob mân adar ar hyd y ddaear  
Bum gyda'r rheiny yn cael fy mhlesar  
Pan own yn ifanc ac yn ofar.
7. Rhoisum dro trwy'r cwm a'r eigion  
Ac ar hyd y traethau gwylltion  
Ond pob hwyaden rhag rwydd [?rhwyd] ddienga

A'r fulfran gu ni ddoi i'r ddalfa  
Ond yn y gloyw ddŵr hi ymgladda.

8. Rhois dro trwy'r dolydd hafaidd hefyd  
Yn lle'r oedd cogau'n canu'n hyfryd  
A minnau am danyn nhw'n ymdynu  
Ond cofio wnes i yr ai nhw i gysgu  
Pan fyddai reitia imi wrth eu cwmni.
9. Rwyn wylo'r dŵr oddiwrth fy nghalon  
Rwyn dwyn yn deg yngolwg dynion  
Rwyn bwrw gwallt y mhen gan hiraeth  
Wel am y ferch sy rhybell ysywaeth  
O wele 'nghyflwr am y 'ngenath.

Ac eithrio safoni ambell *n/nn* a gosod ambell do ni welais ddiben newid orgraff H. D. Jones, rhag colli peth o'r blas llafar a thafodieithol. Gwelir bod nifer o'r odlau yn rhai sy'n adleisio iaith Môn: *isal, plesar, ofar, genath*. Noda H. D. Jones mai *cornchwiglod* ydyw 'cyniglod' (pennill 2). Annisgwyl yw *hwyaden* (pennill 7).

Gwelir o nodiannau Mary Davies mai i gyfeiriad amser triphlyg yr anelai hi. Hyn yn sicr oedd yn gywir. Ni fyddai acennu geiriau'r penillion yn esmwyth ar amser pedwar. Os mai rheolaidd oedd yr amser – ac nid yw mesur y gerdd yn rhoi lle i ddisgwyl afreoleidd-dra – yna fe ddylai'r ffurf uchod ar yr alaw fod yn dderbyniol; nid yw'n crwydro ymhell o nodiannau Mary Davies.

Ymddengys bod 'Mesur Meinfwyn' yn enw ar y gân gan Hugh Thomas. Mae'r mesur pum-llinell yn un anghyffredin. Nid oes yr un enghraifft yn holl gorpws y canu sydd i'w gael yn *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru* a *Canu Gwerin*; nid yw'n digwydd yn llawysgrif Richard Morris.<sup>4</sup> Ceir un enghraifft yn unig yn *Blodeu-gerdd Cymry* Dafydd Jones o Drefriw (1759), sef y gerdd sydd ar tt. 196–8 dan y teitl 'Herodraeth yr Ehedydd, ar Fesur Minfwyn', cerdd ddiennw a godwyd 'o'r Gell Gymysg', un sy'n gyrru'r ehedydd yn llatai at gariad y bardd. Mae pennill cyntaf y gerdd hon yn cyfateb i bennill olaf *Cân yr Hen Farcutan Benllwyd*, 'Rwi'n wylo'r dwr oddiwrth fy 'nghalon', ond nid oes dim arall yn gyffredin i'r ddwy gerdd. Digwydd cân arall yn yr un mesur, i'w chanu ar *Fesur Minfwyn*, yn llawysgrif Syr C. Bryner Jones 1 yn y Llyfrgell Genedlaethol (ff. 120–1), llawysgrif o Feirionnydd, i'w dyddio 1777–82. Ond yr oedd y mesur yn un

1.

Clwyd hwnod hys-farcian hynlwyd Fyngawl i fôr ym ddeith a ddiethlwyd A chyn ei del ym bectol hynlwyd  
 Ac ym cyrsio hwy lwyneb corydd A'i heddau feli felyddau o'r coedfald

2.

M' custian dro twy' hynlwyd hynlwyd Ll'wedd gwynlwyd llyngwr ddigyn Ond ofai wnos i yf ar rheiny  
 A mi dro aneth i dween; Fel na ddaem ddaem ar llwyr lili

3.

4.

5.



Church Name: *St. Peter's Church, Llandudno*  
 Church Name: *St. Peter's Church, Llandudno*  
 Church Name: *St. Peter's Church, Llandudno*  
 Church Name: *St. Peter's Church, Llandudno*  
 Church Name: *St. Peter's Church, Llandudno*  
 Church Name: *St. Peter's Church, Llandudno*  
 Church Name: *St. Peter's Church, Llandudno*  
 Church Name: *St. Peter's Church, Llandudno*  
 Church Name: *St. Peter's Church, Llandudno*  
 Church Name: *St. Peter's Church, Llandudno*

*mi aethu'n ddrwy brydysu. Ie. well apu'ldd hys gadael o'r ddrwydded*  
*o'r ddrwydded*  
*o'r ddrwydded*  
*o'r ddrwydded*  
*o'r ddrwydded*  
*o'r ddrwydded*  
*o'r ddrwydded*  
*o'r ddrwydded*  
*o'r ddrwydded*  
*o'r ddrwydded*

Casgliad LIGC J. Lloyd Williams AH3/3/31(i)

poblogaidd ar gyfer canu gyda'r tannau. Tyst i hyn yw'r tri gosodiad a welir yn *Y Tant Aur* Telynor Mawddwy.<sup>5</sup> Mae ail bennill y gerdd i'r ehedydd yn y *Blodeu-gerdd* yn digwydd yn bennill crwydr yn *Y Tant Aur*, t. 17.

Ar ddiwedd y *Blodeu-gerdd* ceir rhestr o'r cerddi (y 'caniadau') yn ôl eu mesurau. Yno, ar t. 539, rhoddir *Sweet William* yn enw Saesneg ar *Minfwyn*. Yr oedd cainc o'r enw *Sweet William* yn gyfarwydd i Richard Morris tua 1716.<sup>6</sup> Nid ymddengys dan yr enw hwn yn y casgliadau Cymreig sydd ar glawr. Ond yn *Alawon fy Ngwlad* ceir alaw yn y raddfa leiaf yn dwyn yr enw *Minfwyn*.<sup>7</sup> Alaw ydyw sy'n gweddu i bennill pum-llinell ac sy'n cyfateb yn fras o ran patrwm i alaw Hugh Thomas, er mai anodd fyddai canu ei eiriau ef arni a hithau mewn amser 2/4. Ni wn beth oedd ffynhonnell Bennett na beth oedd ffurf y gainc cyn ei golygu gan D. Emlyn Evans; rhaid cofio sut y mae llawer o'i fersiynau ef yn *Alawon fy Ngwlad* yn gwneud cam â'r gwreiddiol. Ond diddorol yw medru gweld rhyw berthynas, heb fod yn agos o gwbl, rhwng ffurf *Minfwyn* yn *Alawon fy Ngwlad* a'r alaw *The Bonny Grey-eyed Morn* (amser 4/4) a ddefnyddiwyd ar gyfer baled Saesneg o ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg sy'n dechrau â'r geiriau 'Sweet William', ac a ddefnyddiwyd yn ddiweddarach yn y *Beggar's Opera*.<sup>8</sup> Dyna o leiaf egluro *Sweet William* Dafydd Jones yn y *Blodeu-gerdd*. Dylid nodi nad oes unrhyw gysylltiad rhwng y dôn hon ac eiddo'r baledi traddodiadol yng nghasgliad Child, *Sweet William*, *Sweet William's Ghost*, ac eraill sydd â 'Sweet William' yn eu teitlau, na chwaith â'r *Bourrée* oedd yn dwyn yr enw *Sweet William*.<sup>9</sup>

O weld y gainc *Minfwyn* yn un brin a fersiwn Hugh Thomas wedi ymbellhau oddi wrthi, ac yna sylwi bod y mesur yn un poblogaidd gan ddatgeiniad gyda'r tannau, rhaid ystyried y posibilrwydd mai'r hyn a ganodd Hugh Thomas oedd cyfalaw datgeiniad oedd wedi magu annibyniaeth, fel llawer alaw arall yn y traddodiad Cymreig. Ai wedi mynd yn fesur i'r datgeiniad yn hytrach na mesur i'r delyn, neu i'r crwth neu'r ffidil, yr oedd *Mesur Minfwyn* (fel ambell un arall yn y *Blodeu-gerdd*, megis *Tri Thrawiad*)? Ceir awgrym o hyn yn y cwmpas melodig cul (i bob pwrpas o fewn pumed) ac amlygrwydd nodyn datganu ar ddechrau llinellau'r gerdd.<sup>10</sup> Gwelir culhau wrth symud o *The Bonny Grey-eyed Morn* i *Minfwyn* ac eto wrth symud o *Minfwyn* i alaw Hugh Thomas.

## NODIADAU

- 1 Mae casgliad John Lloyd Williams yn y Llyfrgell Genedlaethol (casgliad a fu â chatalog nodedig o anfoddfaol) newydd ei ailgatalogio gan Barbara Davies, a phob dogfen bellach wedi'i rhifo. J. Lloyd Williams AH 3/3/31(iv) ac AH 3/3/31(i) sy'n cynnwys y copïau dan sylw o'r geiriau a'r alaw.
- 2 Wyn Thomas, 'Mary Davies – *grande dame* yr alaw werin yng Nghymru', *Canu Gwerin*, 20 (1997), 28–42.
- 3 *Bennett's Business Directory for North Wales* (1916).
- 4 *Llawysgrif Richard Morris o Gerddi*, gol. T. H. Parry-Williams (Caerdydd, 1931).
- 5 [David Roberts], Telynor Mawddwy, *Y Tant Aur* (Abermaw, 1911), tt. 17, 49, 98–9. Nid oes dystiolaeth bwysicach i natur canu gyda'r tannau pan oedd yr hen draddodiad yn dal yn fyw ac iach nag eiddo argraffiad cyntaf *Y Tant Aur*. Erbyn yr ail argraffiad (Abermaw, [1916]), a P. H. Lewis bellach yn gyd-olygydd, gwelir dylanwad niweidiol 'cerddorion': a dyfynnu a glywodd Nansi Richards gan hen ddatgeiniaid, 'Pan aiff canu penillion i ddwylo cerddorion, mi fydd yn Ta-Ta arno', Nansi Richards, *Cwprdd Nansi* (Llandysul, 1972), t. 95. Cyhoeddwyd ail argraffiad *Y Tant Aur* hefyd gan Snell a'i Fab, Abertawe, heb ddyddiad. Ailargraffiad Abermaw ydyw, gyda thudalen teitl a chlwr newydd, ac enw'r argraffydd wedi'i ddileu. Rhaid fod Snell wedi prynu'r hen stoc a'i roi allan dan ei enw ei hun.
- 6 *Llawysgrif Richard Morris*, tt. 67, 85, 104.
- 7 Nicholas Bennett, *Alawon fy Ngwlad* (Llundain, 1896), t. 158.
- 8 C. M. Simpson, *The British Broadside Ballad and its Music* (New Brunswick, 1966), t. 52.
- 9 B. H. Bronson, *The Singing Tradition of Child's Popular Ballads* (Princeton, 1976), gw. rhifau Child 7, 73, 74, 77, 106; *The Complete Country Dance Tunes from Playford's Dancing Master* (1651–c.1728), gol. Jeremy Barlow (Llundain, 1985), rhif 219.
- 10 Gw. sylwadau Phyllis Kinney, *Canu Gwerin*, 'Narrow-compass tunes in Welsh folksong', *Canu Gwerin*, 9 (1986), 12–29.


# **‘A’R BYD I GYD YN BAPUR . . .’**

## **RHAN 3: DYLANWADAU RHYNGWLADOL – SANSGRIT A HEBRAEG\***

**E. Wyn James**

---

Bu Cymru’n llawer iawn mwy agored dros y canrifoedd i ddylanwadau o’r tu allan nag yr ydym yn ei ystyried yn aml. Y duedd yw synio amdani, o leiaf hyd at dwf y bywyd trefol a datblygiad trafnidiaeth yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg (a hyd yn ddiweddar iawn yn achos y Gymru wledig), fel brodwaith o gymunedau eithaf ynysig, yn ddaearyddol ac yn ieithyddol. Ond er bod cyfran ym mhob cymuned ym mhob oes wedi aros ar hyd eu bywyd heb fawr cysylltiad rhyngddynt â’r byd y tu allan, y gwir yw bod cryn dipyn o symudoledd, hyd yn oed yn y cyfnod cyn-ddiwydiannol. Bu tipyn o dramwyo ar hyd y wlad o ffair i ffair ac o sasiwn i sasiwn, er enghraifft, heb sôn am dramwyo i Loegr i borthmona, i weithio yn y cynhaeaf, i chwynnu yng ngerddi’r dinasoedd, ac i dderbyn addysg – a bu tramwyo ymhellach dipyn yn achos milwyr a morwyr. Gormodiaith efallai oedd sylw John Penry yn 1587, ‘There is never a market towne in Wales where English is not as rife as Welsh’, ond hyd yn oed yng nghymunedau gwledig a mynyddig y gorllewin a’r gogledd, lle yr oedd pawb bron yn uniaith Gymraeg yn y cyfnod modern cynnar, byddai ambell un a fyddai’n medru’r Saesneg; a thystia’r geiriau benthg niferus a lifai i mewn i’r Gymraeg erbyn yr ail ganrif ar bymtheg, i ddylanwad y Saesneg ar iaith y Cymry uniaith hwythau. Hwyrach bod 90 y cant o’r boblogaeth yn medru’r Gymraeg yn 1800, ar drothwy’r diwydiannu mawr, a 70 y cant o’r rheini yn uniaith Gymraeg, ond yr ochr arall i’r geiniog yw bod tua 30 y cant o boblogaeth Cymru yn



*E. Wyn James*

medru'r Saesneg yr adeg honno, a 10 y cant ohonynt yn uniaith Saesneg.<sup>1</sup>

Nid Cymraeg a Saesneg fu unig ieithoedd Cymru ychwaith. Bu hi'n wlad amlieithog erioed, a chan y Lladin a'r Ffrangeg a'r Wyddeleg, yn enwedig, le amlwg yn ei bywyd ar adegau gwahanol. Ac yn achos unigolion, nid Dic Aberdaron fu unig ieithmon Cymru, o bell ffordd! Enghraifft amlwg yw'r Dyneiddiwr Protestannaidd mawr, William Salesbury (c.1520–1584?). Yr oedd ei fedr ieithyddol yn ddiahebol: yn hyddysg yn Gymraeg, Saesneg, Lladin, Hebraeg a Groeg, a chanddo wybodaeth o Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg yn ogystal.<sup>2</sup> Ymffrostiai ei gyfoeswr iau, Edmwnd Prys (1543/4–1623), awdur y *Salmau Cân*, ei fod yn gyfarwydd â barddoniaeth mewn wyth o ieithoedd.<sup>3</sup> A chawn nifer helaeth o Gymry eraill dros y blynyddoedd yn meistrioli rhychwant o ieithoedd a'u llenyddiaethau. Dyma ambell enghraifft ar hap o'r ddeunawfed ganrif a hanner cyntaf y bedwaredd ar bymtheg:

- Roedd y bardd o Forgannwg, Lewis Hopkin (c.1708–71), yn bur hyddysg yn llenyddiaeth Saesneg ei ddydd, a chynhwysai ei lyfrgell lyfrau Lladin a Ffrangeg yn ogystal.
- Yn ychwanegol at y Gymraeg a'r Saesneg, medrai David Lloyd (1724–79), y gweinidog Ariaidd o Ddyffryn Teifi, Ladin, Groeg, Hebraeg, Ffrangeg ac Eidaleg.
- Pan fu farw David Jones (1793–1825) – mab y gweinidog Methodist, Thomas Jones, Caerfyrddin – yn 32 oed, yr oedd yn hyddysg yn Lladin, Groeg, Hebraeg, Arabeg a Syrieg, ac wedi dechrau dysgu Perseg a Llydaweg.
- Medrai'r gweinidog Annibynnol o Geredigion, John Davies ('Siôn Gymro'; 1804–84), Ladin, Groeg, Hebraeg, Aramaeg a Syrieg. Boddwyd ei fab, John Griffith Davies (1836–61), yn 25 mlwydd oed pan syrthiodd dros fwrdd llong ger Lerpwl, ond erbyn hynny yr oedd wedi dysgu Lladin, Hebraeg, Ffrangeg, Almaeneg ac Eidaleg.
- Roedd Titus Jenkins (1804–34) – mab John Jenkins (1779–1853), gweinidog Bedyddiedig Hengoed – yn ieithydd medrus a allai ychwanegu at ei Gymraeg, Saesneg, Hebraeg, Groeg, Lladin a Ffrangeg beth wybodaeth o Almaeneg. Aeth ei frawd, John Jenkins (1807–72), yn genhadwr i Lydaw, lle y bu'n gweithio ar gyfieithiad diwygiedig o'r Testament Newydd Llydaweg.<sup>4</sup>



Gellid ychwanegu llawer o rai tebyg at y rhestr. A chan fod fformwla'r byd (neu'r nef) yn bapur a'r môr yn inc yn un a fu mewn cylchrediad mor eang a chyffredinol, gallai'n rhwydd fod wedi dod i Gymru ac i emynyddiaeth Gymraeg y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ar bymtheg o ffynonellau mewn amryw ieithoedd a llenyddiaethau.

Fel y nodwyd ar ddechrau rhan gyntaf yr erthygl hon,<sup>5</sup> mewn ysgrifeniadau Sansgrit dros ddwy fil o flynyddoedd yn ôl, ac yng nghyd-destun llenyddiaeth am dduwiau'r India, y ceir yr enghreifftiau ysgrifenedig cynharaf o'r fformwla dan sylw. Bu gan lawer o Gymry ddiddordeb brwd yn yr India, ei hieithoedd a'i diwylliant, yn sgil datblygu maes cenhadol y Methodistiaid Calfinaidd Cymreig yng ngogledd-ddwyrain y wlad o'r 1840au ymlaen. Ceir enghraifft o hyn yn *Y Traethodydd* am 1859 a 1860 mewn cyfres o erthyglau ar lenyddiaeth yr Hindwiaid gan un o genhadon y Methodistiaid yn yr India, y Parch. William Pryse (1820–69), Sylhet, sy'n cynnwys sawl cyfieithiad o'r Sansgrit (a nifer o emynau hynafol yn eu plith).<sup>6</sup> Ond nid cenhadaeth y Methodistiaid yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd man cychwyn diddordeb y Cymry yn yr India. Er enghraifft, Cymro o sir Gaernarfon o'r enw George Lewis oedd y cenhadwr Protestannaidd cyntaf i weithio yn yr India, yng nghyffiniau Madras rhwng 1692 a 1714; a bu bron i Griffith Jones, Llanddowror, fynd yn genhadwr i'r un ardal yn 1713.<sup>7</sup> Cymro o dras, wedyn, oedd y Prydeiniwr cyntaf i feistrolï Sansgrit yn ôl pob sôn, sef Syr William Jones (1746–94), mab William ('Longitude') Jones y mathemategydd enwog o Fôn, a oedd yn berthynas i Lewis Morris ac yn gyfaill i Edmund Halley ac Isaac Newton. Yr oedd Syr William – 'Persian Jones' neu 'Oriental Jones' fel y'i gelwid – yn ieithydd hynod fedrus, yn awdurdod ar ieithoedd a chyfreithiau'r India, ac yn gyfrifol am feithrin Dwyreinioldeb ('*Orientalism*'), sef 'obsesiwn y Gorllewin gyda theithi meddwl y Dwyrain sydd wedi parhau o ddyddiau William Jones ddiwedd y ddeunawfed ganrif hyd at heddiw'.<sup>8</sup> Yn Lloegr y cafodd Syr William Jones ei eni a'i fagu, ac er iddo fedru wyth ar hugain o ieithoedd i ryw raddau, ac wyth ohonynt yn drwyadl, ni fedrai fawr o Gymraeg – fe'i cyflwynwyd un tro i frenin Ffrainc fel 'gŵr a fedr bob iaith ond ei iaith ei hunan'! Er hynny, yr oedd ganddo ddiddordeb yn y Gymraeg, ei llenyddiaeth a'i hynafiaethau. Medrai ddarllen ryw gymaint ohoni, a bu'n aelod o Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion.<sup>9</sup> Roedd ei ddysg yn ddigon o ddihareb yng Nghymru i'r pregethwr Methodist grymus, John

Elias o Fôn, ddweud wrth ei fab mewn llythyr yn 1819: 'I think if I had to make a choice, whether to have all India, or Sir William Jones's learning, I should prefer the latter.'<sup>10</sup> Nid yw'n amhosibl, felly, ddychmygu fformwla'r byd (neu'r nef) yn bapur a'r môr yn inc yn cyrraedd llenyddiaeth Cymru yn uniongyrchol o'r Sansgrit.

Cyn hwylio am yr India yn 1783 yr oedd Syr William Jones wedi priodi Anna Maria Shipley, chwaer William Davies Shipley (1745–1826), deon Llanelwya a ficer Wrecsam.<sup>11</sup> Trwy hynny bu iddo gysylltiad teuluaid ag un arall a fu'n gyfrifol am osod yr India o flaen llygaid y Cymry, sef Reginald Heber (1783–1826), oherwydd yn 1809, priododd Heber ag Amelia, merch William Davies Shipley. Brodor o'r Gororau oedd Reginald Heber. Fe'i ganed ym Malpas yn swydd Gaer, a bu'n rheithor Hodnet yn swydd Amwythig rhwng 1807 a 1823. Roedd ganddo ddidordeb mawr yn iaith a diwylliant Cymru. Yn Eisteddfod Wrecsam yn 1820 areithiodd yn gryf o blaid y Gymraeg, gan alw am argraffiadau cyhoeddedig o'r Mabinogion a'r Gododdin ac am benodi Athrawon Cymraeg ym Mhrifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt. 'Ef', meddai Hywel Teifi Edwards, 'oedd y Sais cyntaf o bwys i siarad dros yr heniaith ar lwyfan Eisteddfod o bwys.'<sup>12</sup> Roedd Heber yn awyddus i emynau gael lle amlycach yng ngwasanaethau Eglwys Loegr, ac aeth ati i lunio nifer ei hun tra oedd yn rheithor yn Hodnet;<sup>13</sup> ac un cysylltiad diddorol rhyngddo a Chymru yw iddo lunio ei emyn cenhadol adnabyddus, 'From Greenland's icy mountains', tra oedd yn aros gyda'i dad yng nghyfraith, Deon Shipley, yn ficerdy Wrecsam adeg y Sulgwyn 1819. Ymhen pedair blynedd, yn 1823, aeth Heber i'r India yn Esgob Calcutta. Cyfarfu Betsi Cadwaladr ag ef yn Calcutta tra oedd hi ar ei theithiau yn forwyn yn rheulu capten llong, ac adroddodd Heber wrthi farwnad Gymraeg gan ei thad, y pregethwr Methodist, Dafydd Cadwaladr, i Thomas Charles o'r Bala.<sup>14</sup> Bu Heber farw yn yr India yn 1826, a lluniodd y bardd Alun (John Blackwell; 1797–1840) farwnad Gymraeg iddo, 'Lle treigla Caferi yn donnau tryloywon', a wobrwyyd yn Eisteddfod Dinbych yn 1828. Daeth yn ddarn adrodd ac yn ddeuawd boblogaidd dros ben am flynyddoedd. Ynddi darlunnir Hindŵ yn eistedd ar lan afon Caferi ac yn galaru dros ei wlad am fod 'Seren y bore', sef Heber, wedi syrthio; ond fe'i hanogir i beidio ag anobeithio:

Yn araf, fy mrawd, paid, paid anobeithio,  
Gwnei gam ag addewid gyfoethog yr Iôr:

B A R N,  
*Edw Parry*

Egwyddorion y Llywodraeth,

M E W N

Y M D D I D D A N

R H W N G

P E N D E F I G A H W S M O N,

A

Gyhoeddwyd gan y parchedig WILLIAM DAFIS SHIPLEY,  
Dean Llanelwy; a achwynwyd arno gan Mr. William Jones,  
canlynwr tros y Brenhin, ynghyd a holl ganlyniad yr achwyn-  
iad, ac ymadroddion y *Cwrt* ar *Juri*, a gorfoleddus fuddu  
goliaeth y Difeinydd parchedig ar ei holl elynion, wedi gy-  
fansoddi ar ddull Chwaryddiaeth neu INTERLUDE; ac  
amryw ymfyniadau ac ystyriaethau cellwerus eraill, addas  
i'r fath waith.

---

Gan Fardd anadnabyddus o wynedd.

---

Argraphwyd, YNGHAERLUDD, ac ar werth gan *aml*

Wynebdden yr anterliwt *Barn ar Egwyddorion y Llywodraeth* a llofnod Edward Parry arni (trwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru); gweler nodiadau 11 a 16.

A ddiffydd yr haul am i seren fachludo?  
 Os pallodd yr aber, a sychodd y môr?  
 Na, na, fe ddaw bore bydd un Haleliwia,  
 Yn ennyn o'r Gauts hyd gopâu Himaleia,  
 Bydd baner yr Oen ar bob clogwyn yn India,  
 O algerth Cashgur hyd i garth Trafancôr.<sup>15</sup>

Cafwyd cyfieithiadau di-ri o emyn Reginald Heber, 'From Greenland's icy mountains', i'r Gymraeg, yn rhannol am fod cyhoeddwr *Y Gwladgarwr*, Edward Parry,<sup>16</sup> wedi gosod cystadleuaeth ar gyfer cyfieithiad Cymraeg o'r emyn yn y cylchgrawn hwnnw ym Medi 1836. Un o'r rhai a gyfieithodd emyn Heber i'r Gymraeg oedd John Jones ('Tegid'; 1792–1852), brodor o'r Bala, offeiriad ac ysgolhaig, a gynorthwyodd Charlotte Guest i gyfieithu'r Mabinogion i'r Saesneg.<sup>17</sup> Yn 1819 bu'n fwriad ganddo fynd yn athro mewn coleg yn Calcutta, er nad aeth yno yn y diwedd. O gofio'r cysylltiad hwn â'r India, mae'n ogleisiol gweld cerdd ganddo sy'n defnyddio fformwla'r byd yn bapur a'r môr yn inc wrth sôn am gariad Duw. (Dychwelwn at y gerdd honno maes o law.) Ond nid tynnu ar ffynhonnell Sansgrit a wnaeth Tegid ar ei chyfer, ond yn hytrach ar bennill Saesneg a ddaeth yn boblogaidd yn ystod y ddeunawfed ganrif, ac a oedd yn ei dro yn tynnu ar gerdd Iddewig, sef y pennill a ganlyn:

Could we with ink the ocean fill  
 Were the whole earth of parchment made,  
 Were every single stick a quill,  
 And every man a scribe by trade:  
 To write the love of God above,  
 Would drain the ocean dry.  
 Nor could the scroll contain the whole  
 Though stretch'd from sky to sky.<sup>18</sup>

Fel y gwelwyd yn rhan gyntaf yr erthygl hon, bu ysgrifeniadau crefyddol yr Iddewon, ac yn fwyaf arbennig yr 'Akdmut' – cerdd gyfriniol a luniwyd yn Aramaeg yn yr unfed ganrif ar ddeg ac sy'n parhau i gael ei hadrodd yn litwrgi'r Iddewon – yn bont bwysig i gludo'r fformwla am y môr yn inc a'r byd (neu'r nef) yn bapur o'r Dwyrain i'r Gorllewin.<sup>19</sup> Pennill yn seiliedig ar ran o'r 'Akdmut' yw'r pennill Saesneg a ddyfynnwyd uchod. Cafwyd cyfieithiad Cymraeg o'r rhan honno o'r 'Akdmut' rai blynyddoedd yn ôl gan y diweddar Carey Jones, Wrecsam, ar gyfer y bennod ar Iddewiaeth yn

ei gyfrol *Credu'n Wahanol* (1972), t. 49:

Pe gellid llanw'r môr ag inc i gyd,  
A gwneud pob blewyn glas yn gwilsiau drud,  
Pe bai'r cyfanfyd maith yn femrwn hir,  
A phe bai dynion yn llenorion gwir,  
Fe sychai'r môr yn iawn  
Cyn gellid traethu'n llawn  
Am gariad Duw uwchben.

Ac nid yw'n amhosibl o bell ffordd mai trwy ysgrifeniadau Iddewig mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, a thrwy'r 'Akdmut' yn benodol, efallai, y cyrhaeddodd y fformwla hon Gymru a'n hemynyddiaeth.

Dros y canrifoedd bu gan ysgolheigion Cymru ddiddordeb arbennig yn yr iaith Hebraeg, nid yn unig yng nghyd-destun cyfieithu'r Beibl ac astudiaethau beiblaidd, ond hefyd oherwydd y gred hirhoedlog ymhlith y Cymry fod y Gymraeg a'r Hebraeg yn rhai o ieithoedd hynaf y byd ac yn perthyn yn agos i'w gilydd.<sup>20</sup> Mae'r Piwritan, Charles Edwards (1628–91?), yn ei glasur *Y Ffydd Ddi-ffuant* (1677), yn neilltuo pennod gyfan o'i lyfr i drafod perthynas y Gymraeg a'r Hebraeg, llawer ohoni'n rhestr hir o eiriau Cymraeg a Hebraeg wedi'u gosod yn gyfochrog er mwyn dangos y tebygrwydd rhyngddynt. Yn y bennod honno, hefyd, cyfeiria at ymweliad â synagog:

Y mae cryn gyssondeb hefyd rhwng yr Iuddewon a'n cenedl ni mewn cerdd. Clywais hwynt yn eu synagog yn canu'r Psalmiau Hebraeg ar y cyfryw dônau i'm tŷb i ac sydd arferol yn ein gwlad ni ar ddyddiau'r Natalig, a chalan Mai.<sup>21</sup>

Yn ei ddyddiadur, noda'r arweinydd Methodist tanllyd, Howel Harris (1714–73), iddo fynd i synagog er mwyn gweld addoli Iddewig tra oedd ar ymweliad â Llundain ym Medi 1743.<sup>22</sup> Ysgrifennodd un o gyd-weithwyr agos John Wesley, Thomas Olivers (1725–99) o sir Drefaldwyn, ei emyn adnabyddus, 'The God of Abrah'm praise', yn dilyn ymweliad â Synagog Fawr Duke's Place yn Llundain tua 1770. Aralleiriad wedi'i 'gristioneiddio' o'r *Yigdal*, mawlgan Hebraeg a ysgrifennwyd yn 1404, yw emyn Thomas Olivers. Fe'i gosododd ar dôn a gafodd gan Meyer Lyon (1751–97), y cantor Iddewig a glywodd yn canu'r fawlgan, ac enwodd y dôn 'Leoni' ar ôl enw litwrgaidd y cantor.<sup>23</sup> Enghraifft arall o rywun o sir Drefaldwyn yn ymweld



â synagog yn Llundain yw Mair Richards, Darowen. Aeth yno i weld gwasanaeth pan fu ar ymweliad â'r ddinas yn ystod gaeaf 1818–19.<sup>24</sup>

Roedd gwaed Iddewig yng ngwythiennau mwy nag un o arweinwyr amlwg y Methodistiaid Calfinaidd yng Nghymru'r ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ar bymtheg. Priododd yr emynydd, David Charles (1762–1834), Caerfyrddin – sef brawd Thomas Charles o'r Bala – Sarah, merch Samuel Levi Phillips, gemydd a bancer Iddewig o Hwlfordd y dywedir iddo gael ei eni yn Frankfurt am Main yn yr Almaen, yn fab i Rabbi. Y mae ei ddisgynyddion yn perthyn i 'un o brif dylwythau Cymru', chwedl John Davies,<sup>25</sup> ac yn cynnwys yn eu plith J. H. Davies (Cwrt Mawr) a'i chwaer, Sara Maria Saunders, David Charles Davies



*David Charles, Caerfyrddin.*

(Trefeca), T. I. Ellis, Lady Edwards (Yr Urdd), ac yn ein dyddiau ni, Meg Elis, Mari Emlyn a David Davies, yr Aelod Cynulliad Torïaidd.<sup>26</sup> Disgynnai'r gweinidog Methodist, a'r golygydd a'r awdur cynhyrchol a dylanwadol, Thomas Levi (1825–1916), oddi wrth gyd-deithiwr i Samuel Levi Phillips a aeth o Frankfurt am Main i Abertawe yn hytrach nag i Hwlfordd.<sup>27</sup> Yn ogystal, yr oedd yr offeiriad Methodistiaidd, Dafydd Jones (1736–1810), Llan-gan, a'i nai, y bardd a'r gweinidog Bedyddiedig, David Saunders (1769–1840), Merthyr Tudful, hwythau yn ddisgynyddion i Iddewes a briododd Edward Jones (m. 1744), ficer Llandysul.<sup>28</sup> Mae'n werth cofio hefyd fod synagog yn Abertawe erbyn ail hanner y ddeunawfed ganrif.

Ceir cysylltiad arwyddocaol arall rhwng Iddewon a Methodistiaid Calfinaidd Cymru ym mherson Joseph Samuel Christian Frederic Frey (1771–1850), a ystyrir gan rai yn dad y genhadaeth Gristnogol fodern i'r Iddewon. Iddew o Berlin oedd Frey, a gafodd dröedigaeth Gristnogol. Nodweddid yr 1790au ymlaen gan frwdfrydedd cenhadol nodedig yn y byd Protestannaidd efengylaidd. Dyma gyfnod dechreuadau'r mudiad cenhadol modern a oedd i newid map crefyddol y byd mewn modd syfrdanol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed, gan droi Cristnogaeth yn ffydd

fyd-eang ei deiliaid a'i dylanwad. Un o'r cyntaf o'r degau o gymdeithasau cenhadol amrywiol a ffurfiwyd yn y cyfnod hwnnw oedd Cymdeithas Genhadol Llundain, a sefydlwyd yn 1795. Yr oedd Thomas Charles o'r Bala yn un o gyfarwyddwyr y gymdeithas honno, ac un o'i chenhadon cyntaf oedd John Davies (1772–1855), un o gyd-seiadwyr Ann Griffiths yn sir Drefaldwyn, a hwylioddd am Dahiti yn 1800. Daeth Joseph Frey o Berlin i Lundain i baratoi ar gyfer mynd yn genhadwr i Affrica gyda Chymdeithas Genhadol Llundain, ond tra oedd yn Llundain dechreuodd genhadu ymhlith ei gyd-Iddewon. Roedd diddordeb arbennig mewn cenhadu i Iddewon yn y cyfnod hwn, yn rhannol am y credid gan lawer fod cofleidio Cristnogaeth ar raddfa eang gan yr Iddewon yn un o'r camau a fyddai'n arwain at ailddyfodiad Crist.<sup>29</sup> Nid John Hughes, Pontrobert – cyfaill Ann Griffiths a John Davies, Tahiti – oedd yr unig un o bell ffordd i weddio:



*Thomas Charles o'r Bala*

O Arglwydd cofia am  
Hiliogaeth Abraham,  
A dychwel hwy . . .

a hynny mewn emyn cenhadol a fu'n bur boblogaidd ar hyd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.<sup>30</sup> Cafodd Frey gefnogaeth ffigurau dylanwadol megis yr Anglicaniaid efengylaidd Charles Simeon a William Wilberforce, i ffurfio cymdeithas genhadol i weithio ymhlith yr Iddewon, ac yn 1809 sefydlwyd 'The London Society for Promoting Christianity amongst the Jews' (sydd yn parhau i weithredu heddiw dan yr enw 'The Church's Ministry among Jewish People'). Trefnodd Thomas Charles i Joseph Frey fynd ar daith yn siroedd gogledd Cymru yn haf 1811 er mwyn codi cefnogaeth i'r gymdeithas genhadol newydd hon. Yna, yn Awst 1811 bu Frey yn bresennol yn Sasiwn y Methodistiaid yn Llandeilo. Roedd hon yn sasiwn hanesyddol, am mai yno yr ordeiniwyd gweinidogion gan y Methodistiaid am y tro cyntaf yn ne Cymru, a David Charles, Caerfyrddin, yn un ohonynt. Thomas

Charles a lywiodd y gwasanaeth ordeinio ar 8 Awst, ac yn dilyn yr ordeinio ei hun, pregethwyd yn Saesneg gan Joseph Frey ac yn Gymraeg gan John Jones, Edern, a Thomas Charles. Yna, yn dilyn Sasiwn Llandeilo, bu Joseph Frey ar daith yn siroedd y De cyn dychwelyd i Lundain â swm anrhydeddus o arian yr oedd wedi llwyddo i'w gasglu ar gyfer y gymdeithas genhadol ar ei daith trwy Gymru.<sup>31</sup> Tybed a fu'r daith honno yn gyfrwng i gyflwyno fformwla'r byd (neu'r nef) yn bapur a'r môr yn inc i rywrai yng Nghymru? Ond er y gall mai o ffynonellau Hebraeg neu Iddewig y daeth y fformwla i'r Gymraeg, y tebyg yw iddi gael ei chyfyngu trwy'r Saesneg, trwy benillion Saesneg megis yr un a ddyfynnwyd uchod, ac at hynny y trown i orffen.

(*I'w barhau*)

\* Trydedd ran erthygl yn seiliedig ar ddarlith a draddodwyd yng Nghwrs Preswyl Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, Llangrannog, 30 Medi 2001. Cyhoeddwyd y ddwy ran gyntaf yn *Canu Gwerin*, 25 (2002), tt. 48–58, a 26 (2003), tt. 46–57.

## NODIADAU

- 1 Gw. Geraint H. Jenkins (gol.), *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb: Yr Iaith Gymraeg cyn y Chwyldro Diwydiannol* (Caerdydd, 1997), pennod 2 (ac yn enwedig tt. 46–52, 73–4, 101–5).
- 2 W. Alun Mathias, 'William Salesbury – Ei Fywyd a'i Waith', yn *Y Traddodiad Rhyddiaith*, gol. Geraint Bowen (Llandysul, 1970), t. 30.
- 3 Gruffydd Aled Williams, 'Edmwnd Prys (1543/4–1623): Dyneiddiwr Protestannaidd', *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd*, 8:4 (1980), t. 353.
- 4 J. ac Ll. Jenkins (goln.), *Hanes Buchedd . . . John Jenkins* (Caerdydd, 1859), rhan 2, t. 184. Am yr enghreifftiau eraill o ieithmyn a grybwyllir yma, gw. y cofnodau arnynt yn *Y Bywgraffiadur Cymreig*.
- 5 *Canu Gwerin*, 25 (2002), t. 48.
- 6 *Y Traethodydd*, 1859, tt. 64–91, 320–43, 424–8; 1860, tt. 86–95, 161–73, 276–86. Credai William Pryse fod yr Hindwiaid a'r Celtiaid yn perthyn yn agos i'w gilydd, a'u bod yn disgyn oddi wrth Jaffeth mab Noa. Ar William Pryse, gw. cyfrol D. G. Merfyn Jones ar hanes cenhadaeth y Methodistiaid Calfinaidd yn Sylhet, *Y Popto Poeth a'i Gyffiniau* (Caernarfon, 1990). Roedd gan y cenhadwr Wesleiaidd, R. D. Griffith (1813–56) wybodaeth eang o Sansgrit (a Thamil). Enghraifft o ddiddordeb gwahanol iawn mewn Hindwaeth yn yr un cyfnod yw ysgrifeniadau derwyddol Myfyr Morganwg (Evan Davies; 1801–88), gw. trafodaeth Huw Walters arnynt yn ei gyfrol *Cynnwrf Canrif* (Cyhoeddiadau Barddas, 2004).

- 7 Gw. E. D. Evans, 'Y Genhadaeth Brotestannaidd Gyntaf a Rhan Cymry Ynddi', *Y Traethodydd*, Gorffennaf 1994, tt. 157–72, a 'A Providential Rescue? Griffith Jones and the Malabar Mission', *Journal of Welsh Religious History*, 8 (2000), tt. 34–42. Dywed Mary Clement am George Lewis (m. 1729): 'He took part in the first celebration of St. David's Day held in London, 1 March 1715, under the patronage of the Most Honourable and Loyal Society of Antient Britons, by preaching a Welsh sermon in St. Paul's Church, Covent Garden . . . He was a noted oriental scholar and one of the [SPCK's] chief advisers on the printing of new editions of the Portuguese and Arabic New Testaments. His valuable collection of old Persian MSS was presented by him to the University of Cambridge' – Mary Clement (gol.), *Correspondence and Minutes of the S.P.C.K. Relating to Wales 1699–1740* (Cardiff, 1952), t. 57.
  - 8 Aled Gruffydd Jones, 'Meddyliar am India: Tair Taith y Genhadaeth Gymreig yn Sylhet, 1887–1947', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, Sesiwn 1997 (cyf. 4, 1998), t. 86.
  - 9 Ar gysylltiadau Cymreig Syr William Jones, gw. Emyr Wyn Jones (gol.), *Yr Anterliwt Goll* (Aberystwyth, 1984), t. xii; Michael J. Franklin, *Sir William Jones*, Cyfres 'Writers of Wales' (Caerdydd, 1995), a'r cofnodau perthnasol yn *Y Bywgraffiadur Cymreig a'r Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*.
  - 10 E. Wyn James, 'Gweithiau Calfin yng Nghymru', yn *Ysgrifau Diwinyddol II*, gol. Noel A. Gibbard (Pen-y-bont ar Ogwr, 1988), t. 95. Cyfieithodd John Elias (1774–1841) benillion Saesneg sy'n defnyddio fformwla'r byd yn bapur a'r môr yn inc wrth sôn am gariad Duw, a'u cyhoeddi yn *Goleuad Cymru*, Mehefin 1822, t. 452. (Dychwelwn at y gerdd hon yn y man.) Mae'n werth cofio yng nghyd-destun sylw John Elias fod sawl cyfeiriad at gyfoeth yr India yng ngwaith emynwyr ei ddydd. Yr un mwyaf adnabyddus, mae'n siŵr, yw'r pennill hwn gan Williams Pantycelyn:
 

Iesu, Iesu, rwyt Ti'n ddigon,  
                     Rwyt Ti'n llawer mwy na'r byd;  
 Mwy trysorau sy'n dy enw  
                     Na thrysorau'r India i gyd:  
                     Oll yn gyfan  
                     Ddaeth i'm meddiant gyda'm Duw.
- Am gyfeiriadau eraill gan Bantycelyn at gyfoeth yr India, gw. *Llyfr Emynau a Thonau y Methodistiaid* (1929), emynau 105, 206, 413, 553 a 630.
- 11 Cafwyd achos llys enwog yn erbyn Shipley yn 1783/84, pan erlyniwyd ef am gyhoeddi pamffledyn radicalaidd o waith Syr William Jones. Bu'r achos yn un pwysig yn hanes rhyddid y wasg. Esgorodd hefyd ar anterliwt, *Barn ar Egwyddorion y Llywodraeth*, gan 'Fardd anadnabyddus o wynedd' (Twm o'r Nant, o bosibl). Yr oedd Syr William Jones yn fwy radicalaidd o dipyn na'i frawd yng nghyfraith. Er enghraifft, yr oedd gan Shipley 'fuddiannau sylweddol yn y planfeydd siwgr a weithid gan y caethweision yn Nevis a St Kitts yn Ynysoedd India'r Gorllewin'; barn Sir William Jones, o'r ochr arall, oedd 'it is better to eat [no sugar] . . . than rob one human creature of those eternal rights, of which no law upon earth can justly deprive him' – Emyr Wyn Jones (gol.), *Yr Anterliwt Goll*,

- t. xi; Michael J. Franklin, *Sir William Jones*, Cyfres 'Writers of Wales', tt. 37–8; Peter Lord, *Words in Pictures* (Planet, 1995), tt. 75–80. Am agweddau Cymry'r cyfnod at gaethwasiaeth, gw. E. Wyn James, 'Caethwasanaeth a'r Beirdd, 1790–1840', *Taliesin*, 119 (Haf 2003), tt. 37–60.
- 12 Hywel Teifi Edwards, 'Trugareddau Eisteddfodau Wrecsam', *Barn*, 174–5 (Gorff./Awst 1977), t. 239. Cyhoeddwyd anerchiad Heber yn Eisteddfod Wrecsam 1820 ar ddiwedd bywgraffiad iddo yn *Y Gwladgarwr*, Mai 1839, tt. 131–2.
  - 13 Cynhwysir cyfieithiad Cymraeg o un o'i emynau enwocaf, 'Brightest and best of the sons of the morning', a thrafodaeth fer arno, yn E. Wyn James, *Carolau a'u Cefndir* (Pen-y-bont ar Ogwr, 1989), t. 52.
  - 14 Jane Williams (gol.), *The Autobiography of Elizabeth Davis*, argraffiad newydd (Caerdydd, 1987), t. 80. Cyfarfu Betsi Cadwaladr â Heber pan aeth hi gyda'r cenhadwr Bedyddiedig enwog, William Carey, i wrando arno'n pregethu. Carey a gyflwynodd Betsi i Heber ar ddiwedd yr oedfa fel 'merch Dafydd Cadwaladr'. Ymhlith pethau eraill, dywedodd Heber wrth Betsi 'that the Chaldaic and the Syriac were branches of the Welsh, and that Abraham was a Welshman before he went to Canaan [am ei fod yn dod yn y wreiddiol o Ur y Caldeaid]'.
  - 15 Atgynhyrchir y farwnad yn R. M. Jones (gol.), *Blodeugerdd Barddas o'r Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* (Cyhoeddiadau Barddas, 1988), rhif 115.
  - 16 Brodor o sir y Fflint oedd Edward Parry (1798–1854), a dreuliodd flynyddoedd lawer yn gyhoeddwr ac yn llyfrwrthwr yng Nghaer. Mae llofnod Edward Parry ar yr unig gopi sydd wedi goroesi o'r anterliwt *Barn ar Egwyddorion y Llywodraeth*, a gyhoeddwyd gan Ddeon Shipley – gw. Emyr Wyn Jones (gol.), *Yr Anterliwt Goll*, tt. xxxviii–xxxix. Tybed a oedd ganddo ryw berthynas arbennig â theulu Shipley?
  - 17 Cynhwyswyd cyfieithiad Tegid o 'From Greenland's icy mountains' – 'O Ynys Iâ fynyddig' – yn Henry Roberts (gol.), *Gwaith Barddonawl . . . Tegid* (Llanyddyfri, 1859), tt. 247–8.
  - 18 *Gwaith Barddonawl . . . Tegid*, tt. 217–18.
  - 19 *Canu Gwerin*, 25 (2002), t. 49.
  - 20 Ar y materion hyn, gw. Ceri Davies, 'Dysg Ddyneiddiol Cyfieithwyr y Beibl', *Llên Cymru*, 16:1–2 (1989), tt. 7–22; Derec Llwyd Morgan, 'Morgan Llwyd a'r Iddewon', yn *Ysgrifau Beirniadol XXI*, gol. J. E. Caerwyn Williams (Dinbych, 1996), tt. 93–4; Caryl Davies, *Adfeilion Babel: Agweddau ar Syniadaeth Ieithyddol y Ddeunawfed Ganrif* (Caerdydd, 2000); R. Tudur Jones, 'Diwylliant Thomas Charles o'r Bala', yn *Ysgrifau Beirniadol IV*, gol. J. E. Caerwyn Williams (Dinbych, 1969), tt. 101–7; E. Wyn James, "'The New Birth of a People": Welsh Language and Identity and the Welsh Methodists, c.1740–1820', yn *Religion and National Identity*, gol. Robert Pope (Caerdydd, 2001), tt. 20–3. Mae'n werth nodi fod gan un o ysgolheigion Hebraeg amlycaf ei ddydd, Hugh Broughton (1549–1612), Piwritan o swydd Amwythig ond Cymro o dras, gysylltiadau agos ag Iddewon y Cyfandir. Roedd gan Gymro arall o ran ei dras, y mathemategydd a'r swynwr, John Dee (1527–1608), ddiddordeb mawr yn yr Hebraeg, ond am resymau pur



- wahanol i rai Broughton. Felly hefyd Dic Aberdaron (1780–1843) mewn cyfnod diweddarach – gw. E. Wyn James, ‘Gweithiau Calfin yng Nghymru’, tt. 87–8. Ar bwnc Cymru a’r Iddewon, gw. yn arbennig, Grahame Davies (gol.), *The Chosen People: Wales & The Jews* (Pen-y-bont ar Ogwr, 2002).
- 21 Charles Edwards, *Y Ffydd Ddi-ffuant*, gol. G. J. Williams (Caerdydd, 1936), tt. 420–1. Gellid tybio mai tra oedd yn byw yn Llundain o tua 1774 ymlaen y bu iddo ymweld â’r synagog. Cyhoeddodd hefyd bamffledyn Lladin tua dechrau 1676, *Hebraismorum Cambro-Britannicorum Specimen*, yn dadlau’r cysylltiad rhwng y Gymraeg a’r Hebraeg (gw. rhagymadrodd G. J. Williams, tt. xxxii–xxxiv).
  - 22 Tom Beynon (gol.), *Howell Harris, Reformer and Soldier* (Caernarfon, 1958), tt. 53, 55.
  - 23 Grahame Davies (gol.), *The Chosen People: Wales & The Jews*, tt. 51–3; E. Wyn James, *Dechrau Canu: Rhai Emynau Mawr a’u Cefndir*, adargraffiad (Pen-y-bont ar Ogwr, 1993), t. 18. Lluniodd Williams Pantycelyn farwnad ar y dôn hon yn 1776 – gw. Gomer M. Roberts, *Y Pêr Ganiedydd*, cyf. 2 (Gwasg Aberystwyth, 1958), tt. 121–2.
  - 24 Yr wyf yn ddiochgar i’r Athro Sioned Davies am yr wybodaeth hon.
  - 25 John Davies, ‘Ymgeisydd Meirionnydd – Parnell?’, *Golwg*, 3:23 (21 Chwefror 1991), t. 31. ‘Teulu brenhinol y Methodistiaid Calfinaidd’ yw disgrifiad John Aaron ohonynt yn ei gyfrol *Torf Ardderchog: Teithiau Cristnogol trwy Gymru*, cyf. 1 (Pen-y-bont ar Ogwr, 1992), t. 14.
  - 26 Ar y teulu, gw. T. I. Ellis, *John Humphreys Davies* (Lerpwl, 1963), tt. 11–13, 243–8; John Aaron, *Torf Ardderchog*, tt. 14–15; Peter Davies, ‘Cwrt Mawr in the Nineteenth Century in the Parish of Llangeitho’, *Cylchgrawn Hanes Teuluoedd Dyfed*, 7:1 (2000), tt. 20–3.
  - 27 N. H. Saunders, *Swansea Hebrew Congregation 1730-1980* (Abertawe, 1980), t. 29; Dafydd Arthur Jones, ‘Thomas Levi (1825–1916): Gweinidog, Awdur a Golygydd’, traethawd PhD anghyhoeddedig Prifysgol Cymru [Aberystwyth], 1995, t. 2. Mae’n werth nodi wrth fynd heibio fod gan Thomas Levi, trwy amryfusedd, ddau gofnod yn *Y Bywgraffiadur Cymreig*, sef y cofnod o dan ei enw ei hun ar dud. 510 a’r cofnod ‘Williams, William (“Y Lefiad”’, *fl.* 1853), cyfieithydd *Uncle Tom’s Cabin*’ ar dud. 1019. Nid fu’r fath berson â ‘William Williams (“Y Lefiad”)’. Creadigaeth *Y Bywgraffiadur* ydyw! Cyhoeddodd y gweinidog Methodist, William Williams (1817–1900), Abertawe, ddwy gyfrol gan Thomas Levi yn 1853 dan y ffugenw ‘Y Lefiad’; a ffrwyth camgyfuno ffugenw’r awdur ac enw’r cyhoeddwr yw’r ‘William Williams (“Y Lefiad”)’ yn *Y Bywgraffiadur*.
  - 28 W. J. Davies, *Hanes Plwyf Llandysul* (Llandysul, 1896), tt. 153–5; Gomer M. Roberts, ‘Nodiadau ar David Jones, Llan-gan’, *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, 43:1 (Mawrth 1958), tt. 12–13.
  - 29 E. Wyn James, ‘Williams Pantycelyn a Gwawr y Mudiad Cenhadol’, yn *Cof Cenedl XVII*, gol. Geraint H. Jenkins (Llandysul, 2002), tt. 80–2, 93–8; gw. hefyd Derec Llwyd Morgan, ‘Morgan Llwyd a’r Iddewon’, tt. 81–96; Goronwy Wyn Owen, ‘Eschatoleg Morgan Llwyd’, yn *Ysgrifau Beirniadol XXII*, gol. J. E. Caerwyn Williams (Dinbych, 1997), tt. 194–200; Grahame Davies (gol.), *The Chosen People: Wales & The Jews*, tt. 45–8.

- 30 Cyhoeddwyd yr emyn am y tro cyntaf yn *Goleuad Cymru*, Gorffennaf 1822, tt. 484–5. Gw. hefyd yr adran o emynau cenhadol ar ddiwedd casgliad emynau John Hughes, *Caniadau Efengylaidd i Blant* (Y Bala, 1826).
- 31 John Hughes Morris, *Hanes Cenhadaeth Dramor y Methodistiaid Calфинаidd Cymreig* (Caernarfon, 1907), tt. 384–5; D. E. Jenkins, *The Life of the Rev. Thomas Charles*, cyf. 3 (Dinbych, 1908), tt. 175, 287, 289, 398; Stephen R. Sizer, 'The Promised Land: A Critical Investigation of Evangelical Christian Zionism in Britain and the United States of America since 1800', traethawd PhD anghyhoeddedig Prifysgol Middlesex, 2002 (gw. [www.virginiawater.co.uk/christchurch](http://www.virginiawater.co.uk/christchurch)). Cyhoeddwyd tri phamffledyn Cymraeg gan 'Gymdeithas Llundain er lledaenu Cristnogaeth ymysg yr Iddewon' yn y blynyddoedd 1810–12, er mwyn ennill cefnogaeth Cristnogion Cymru i'w gweithgareddau – gw. Eiluned Rees, *Libri Walliae*, cyf. 1 (Aberystwyth, 1987), t. 426. Erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg byddai gan y Methodistiaid Calфинаidd Cymreig eu cenhadaeth eu hunain i'r Iddewon, ac er mai yn Llundain y byddai eu cenhadwr, John Mills (1812–73), yn gweithio yn bennaf, aeth ar fwy nag un daith i'r Dwyrain – gw. J. H. Morris, *Hanes Cenhadaeth Dramor y Methodistiaid Calфинаidd Cymreig*, pennod 18; Grahame Davies (gol.), *The Chosen People: Wales & The Jews*, tt. 55–60.


# JANE WILLIAMS, HOLYWELL

David R. Jones

---

In the Preface to her first collection of folk-songs – *Folk Songs Collected in Flintshire and the Vale of Clwyd* – Ruth Herbert Lewis (1871–1946) writes about the trials of folk-song collecting:

Often, after the first visit, many others must be paid, as the song sometimes comes back slowly to the old person's memory. Much tact and patience is required and worthless productions of modern date must be suffered before the real old song appears. This, however, has never been the case with Mrs. Jane Williams. Her songs whether Welsh or English, are all old and worth recording, because she is nearly ninety years of age, and being unable to read or write, she remembers the things of long ago better than those of to-day.<sup>1</sup>



*David R. Jones*

With these words Jane Williams's reputation was sealed. The image put forward is of an ideal singer of folk-songs whose illiteracy had ensured that her repertoire had been received through oral tradition, whose extreme age meant that her songs were of suitable antiquity, whose power of recall was exceptional, and whose range of songs was extensive – including examples in both English and Welsh. Jane Williams was also a singer at ease with the phonograph (Ruth Lewis's chosen medium of folk-song collecting) and was happy to record cylinder after cylinder. However, a re-appraisal of Jane's legacy on the basis of both published and unpublished material suggests that her reputation, though not without foundation, needs to be qualified.

But who was Jane Williams, Holywell's folk-singer extraordinaire? It should be made absolutely clear that Jane Williams, Holywell, must not be confused

with Jane Williams of Glan Llyn, Berthengam (1864–1947), the singer of ‘Modryb Neli’ and ‘Robin Goch oedd ar y rhiniog’ who was recorded by Ruth Lewis in July 1911.<sup>2</sup> Jane Williams, Berthengam, was a woman of sufficient independent means and a highly-respected figure in local Flintshire society. She was a devout Christian who was also prominent in the Temperance movement, singing at their meetings throughout the county. Ruth Lewis too was active in the Temperance movement, and it is possible that the two women met through this common interest. Jane Williams, Berthengam, possessed a ‘clear soprano voice’ and, according to family tradition, recorded her folk-songs for Ruth Lewis at Plas Penucha, having been invited there for the purpose.<sup>3</sup> None of her recordings survives, but in 1966 her grand-daughter, Anne Jane Williams of Tre-lan, Cilcain, was persuaded to record a selection of the folk-songs which her grandmother had taught her, including ‘Robin Goch’.<sup>4</sup>

Jane Williams, Holywell, belonged to a different stratum of society altogether. Much of what we know about her life derives initially from Ruth Lewis and, subsequently, from Dora Herbert Jones, some of whose statements made in her latter years must be treated with caution owing to her tendency to ‘romanticise’ certain aspects of Jane Williams’s life. For example, in 1914 Ruth Lewis, commenting on ‘Mynwent Eglwys’ (recorded from Jane in August 1911), wrote that Jane ‘used to sing it to her twelve children when babies.’<sup>5</sup> However, on at least three occasions, Dora Herbert Jones increased Jane’s progeny to fourteen – it may not have been accurate but it made for good copy!<sup>6</sup>

The number of facts that exist concerning Jane Williams is disappointingly small. It is known that she had a sister, Hannah, that she was bilingual, that she was associated with the Holywell area of Flintshire, that she was married and a mother of a dozen children, that she spent some years occupied as a ‘hawker’, that she was recorded by Ruth Lewis singing Welsh and English folk-songs, and that for a number of years she was a resident of the Union Workhouse, Holywell. These facts gain validity from being supported by entries in the Census Returns, the Holywell Parish Registers and the records of the Union Workhouse, Holywell. Indeed, it is with the latter records that any investigation of Jane Williams’s life should begin. By consulting these, and the other sources referred to, it is hoped to establish Jane’s true age, and to gather further details about her life and the era in which she learnt her folk-songs.







An examination of the Workhouse Admission and Discharge Books (volumes that should be reliable) yields surprisingly inconsistent information about Jane. On Thursday 27 September 1900 a Jane Williams described as a 'Hawker' was admitted from the parish of Holywell Urban. Her date of birth appears as 1831.<sup>7</sup> Also admitted, seemingly together with Jane, was a Hannah Williams whose date of birth was 1870. The dates suggest that the admission was of mother and daughter. On Friday 5 July, Jane and Hannah were discharged, each at 'Her own request', but were re-admitted, again apparently together, on Tuesday 7 January 1902. Jane Williams was once more described as a 'hawker' from the parish of Holywell Urban, but on this occasion her date of birth is 1828 and Hannah's 1868.<sup>8</sup>

A Jane Williams (admitted from the parish of Holywell Urban) is recorded as being discharged after breakfast on Monday 29 September 1902, also on the basis of 'Her own request'.<sup>9</sup> On Tuesday 7 October in the same year a 'hawker' named Jane Williams (from the parish of Holywell Urban) was again admitted to the Workhouse, but her date of birth is given as 1826. Nonetheless, despite the variations in age, all the other particulars relating to the January and October admissions and the September discharge are identical, and this strongly suggests that all the entries cited above refer to the same person.<sup>10</sup> Therefore, according to these dates, Jane Williams was aged between seventy-seven and eighty-five years in August 1911, the date when she was first visited by Ruth Lewis.

Dora Herbert Jones accompanied Ruth on that first visit and describes their initial encounter with Jane:

There she was, sitting up in bed. . . Thin, rather gaunt + quite tall, + with a very decided personality. She was over 80, couldn't read or write + was most certainly not going to be bamboozled into doing anything if she didn't feel like. And singing folksongs was not part of her wishes for that afternoon!<sup>11</sup>

In fact, as will be shown later, Jane was actually younger than Ruth Lewis and Dora Herbert Jones were given to understand. There seems to have been a certain 'celebrity' factor about octogenarian singers, whose status as guardians of an authentic folk-song tradition was enhanced by their advanced years.

Unfortunately, there is no entry in the Census Returns for a 'hawker' named Jane Williams whose age corresponds with a date of birth of either 1826 or 1828, but a Jane Williams listed as 'Hawker' does appear in the 1881 Census aged forty-five, a statistic which implies 1836 as the year of her birth.<sup>12</sup> The discrepancy of ten years thus presented is clearly problematic, although it is not unknown for females to be discreet with their figures!<sup>13</sup>

The 1881 Census entry also names Jane's husband, David, and a number of their children. It also provides an address, the Blue Bell Yard, Holywell High Street, the significance of which should become clear later.<sup>14</sup> Jane and David were married on 7 May 1855, and it is from that record that we learn that bride and groom were living at the Blue Bell Arch at the time of their marriage, and that Jane's father was a glover named Robert Williams.<sup>15</sup> This establishes that Jane's maiden name was Williams. Ruth's claim that Jane Williams was 'unable to read or write' is supported by the details on the marriage register.<sup>16</sup>

The couple are recorded as living in the Blue Bell Yard in the 1861 Census, and are still there (with daughter Hannah, aged twenty-one) at the time of the Census of 1891.<sup>17</sup> The address 'Bell Arch' or 'Blue Bell Arch' appears consistently in the baptism entries for all their children supporting their residence at that address for the years 1855 to 1891 inclusive, and maybe for some time either side of those dates.

When they married, David was a collier, later a labourer until at least 1865. In 1861 he is listed as a 'Dealer in Salt', and in 1867 and subsequently, a 'hawker'.<sup>18</sup> This reflects a general decline in Holywell's economic fortunes during the middle years of the nineteenth century.

The combination of Census returns and Parish Register information provides a full identification of Jane's large family. Their names (and dates of birth) are: Winefred (1855), Mary-Ellen (1856), David (1857), Mary Jane (1859), Thomas (1860), James (1863), Robert (1865), David (1867), Hannah (1869), Mary Anne (1872), Margaret Elizabeth (1873), and Jane (1875).<sup>19</sup> Ruth Lewis was therefore correct in claiming for Jane twelve children. Sadly, Mary-Ellen, David (b. 1857), and Mary Jane do not appear to have survived childhood, suggesting a tragic episode in Jane's life.

Most of the children are named after family members, the exception being the eldest, Winefred, a choice perhaps inspired by the saint of Holywell's

Holy Well; Thomas was probably named after his paternal grandfather, Robert after Jane's father, David after his own father, Mary after Jane's mother, Jane after her own mother, and Hannah probably after Jane's sister.

At this point a little should be said about Hannah. The memory of Hannah was used, successfully, to persuade Jane to sing for Ruth Lewis and Dora Herbert Jones (or Dora Rowlands as she was at the time) on the occasion of their first collecting trip to the Holywell Workhouse in August 1911. Their intermediary on that visit was Dr John Owen Jones (1863–1931), originally from the village of Cyffylliog (Y Gyffylliog), Denbighshire, who was one of the two Medical Officers for the Workhouse.<sup>20</sup> He was an enthusiastic



*Dr John Owen Jones, Holywell, an enthusiastic member of the Welsh Folk-Song Society, and the man who introduced Ruth Lewis to Jane Williams. By kind permission of Dr Jones's grand-daughter, Mrs Hâf Williams.*

Welshman and, more importantly, a loyal member of the Welsh Folk-Song Society.<sup>21</sup> In that context he was doubtless unusually responsive to any folk-singing capabilities he discovered among the residents of the Workhouse; he would also have been aware of Ruth Lewis's interest in collecting Welsh folksongs, and of her proximity to the establishment. Indeed, he had probably arranged the August visit. After experiencing some difficulty in obtaining a song from Jane, Dr Jones turned to the ladies:

'Did you by any chance know Jane's sister, Hannah?'

'No' . . .

'Pity. . . she died about a year ago. . . Oh, she was a lovely singer, lovely. And she remembered – dear me she remembered scores of those old songs. I don't know how she did it. And the nice thing about her was, you'd only got to ask her + she'd sing for you. She loved them. It's a pity you never knew her.'<sup>22</sup>

This dialogue is from one of Dora Herbert Jones's recollections, and as such is probably an approximation of the actual words. Hannah's death, for example, had actually taken place only months earlier, not 'about a year ago'. According to the Workhouse Register of Deaths, one Hannah Salisbury died at the Workhouse on 13 January 1911 at the age of ninety-one.<sup>23</sup> It is, of course, a matter of regret that Hannah was not recorded by Ruth Lewis, especially as Ruth Lewis started collecting, using a phonograph, in the Autumn of 1910, and that Hannah was reputed to have had a repertoire at least as extensive as her sister's, if not more so.

Hannah and Jane appear to have been close. Dora Herbert Jones claimed that for many years they had had a shop in Holywell.<sup>24</sup> This remark suggests that at some point the sisters must have gone into business together, though at what date is unclear. An examination of the relevant trade directories indicates no shop, which implies that the extent of their business was small-scale and was carried on from a private house. The size and nature of the business is confirmed by the 1901 Census which lists the profession of Hannah Salisbury (widow, aged 82, living at 7 Bagillt Street, Holywell) as 'Sheeps' Trotters purveyor' and working 'at home'.<sup>25</sup> In fact, the business probably gave rise to the sisters' reputed 'trade-name', of 'Jane and Hannah Sheeptrotters [*sic*]'.<sup>26</sup>

Sometime between the taking of the 1901 Census and January 1911 Hannah must have left her business and entered the Workhouse. It was there that she died. On 20 January 1911 a brief notice appeared in a local newspaper which recorded Hannah's death at the age of ninety-one, and that she was 'formerly of the Blue Bell Yard, Holywell'.<sup>27</sup> The evidence points to Hannah and Jane as having lived very near to each other, and this information raises the possibility that for some time, maybe many years, Hannah had run her retail meat business from Blue Bell Yard, and that Jane had assisted. The newspaper clearly expected its readers to associate Hannah's name with Blue Bell Yard, but Jane's role is not mentioned. Yet it is surely more than coincidence that the sisters lived and worked so close together. The picture that emerges of Jane is that of a woman working to support her large family by supplementing the wages earned by her husband, in what appear to have been economically hard times.

The Blue Bell Yard led directly onto the High Street, so placed the family in the heart of Holywell. That was good for business, but perhaps less so for fostering a true folk-song culture. Yet this is where Jane would have brought

up her family, the place where all her children were born and where they all would have been taught the Welsh and English folk-songs that she knew (including 'Mynwent Eglwys'). It is also the place from where they would have picked up the popular songs arising from Holywell's fairs, numerous taverns, and the generally busy urban community. But Jane identifies another area of the town as the place where, as a girl, she learnt from her mother those folk-songs which she later sang for Ruth Lewis.

Before locating Jane's childhood home, it might be appropriate to consider the major influences in Holywell in the early 1830s. Did the environment in which Jane Williams grew up affect her knowledge or choice of folk-song repertoire?

Today's attractive undulating green hills of Flintshire cannot disguise completely the many areas which were once at the centre of the county's industrial past.<sup>28</sup> Holywell's early industrial expansion was at its height during the 1820s and 1830s and the two main activities were the extractive industries (especially coal and lead) and cotton spinning. The former had arisen because the town of Holywell and its environs is situated on a belt of carboniferous limestone which had allowed coal and lead to be mined from as early as the medieval period. Exploitation of the resources at that time was understandably small-scale, but in the late eighteenth and early nineteenth century the industry grew, and Holywell expanded:

Social history in Flintshire as elsewhere must always keep touch with industrial development. The standard of living was higher here than in more remote parts of Wales because of the lead industry and its associated carrying trade. The small farmer in Flintshire . . . took out his horses to carry lead or coal from the mines to the sea-coast or Chester. . . If the farmer profited, so did the squire. . . The tradesman in his turn did comparatively well out of an increased demand for goods. In 1820 or so Holywell, the centre of a lead-mining and colliery district, with cotton-mills as well, claimed to be the largest town in Wales. It was a busy centre for religion, banking, publishing, and politics, all ultimately nourished on lead and coal.<sup>29</sup>

Clearly the well-known song 'Yr Asyn a fu farw wrth gario glo i Fflint' (examples of which were also collected by Ruth Lewis, but not from Jane Williams) could have had plausible origins in the practices of the small farmer in early nineteenth-century Flintshire.<sup>30</sup>



Before the advent of steam-driven machinery, the key factor in Holywell's successful cotton-spinning industry was a local abundance of water.<sup>31</sup> According to one authority:

Water-power in plenty in the 1820s made Holywell the largest town in Wales. Then came the great industries, steel, textiles and chemicals on Deeside. In almost every Flintshire field is an industrial site.<sup>32</sup>

Industrial growth attracted workers, and during the period 1801 to 1841 the population of Holywell parish expanded from 5,567 to 10,834.<sup>33</sup> This is not to say that agriculture was unimportant – it too developed, but the rapid expansion of heavy industry in Flintshire generally (and in Holywell in particular) during the early nineteenth century, meant that the factories and the mines became the area's main employers drawing in workers from across Wales and the rest of Britain.<sup>34</sup> Holywell became densely populated, bilingual and bicultural. So the town in which Jane Williams's girlhood was spent was actually the pre-eminent industrial settlement in north-east Wales.

This means, of course, that Jane Williams was not a rural folk-singer, and should not therefore be thought of as one. In this respect she is atypical of most of the singers recorded by Ruth Lewis; they were usually from remote rural locations. The absence from Jane's repertoire of songs which reflect rural work and traditions should, consequently, come as no surprise. Jane Williams represents an urban source of Welsh (and English) folk-songs, and the environment in which she was brought up undoubtedly influenced the range and quality of her repertoire.

Two channels of oral tradition can be suggested as the sources which provided Jane Williams with her songs – her mother and the community in which she grew up. According to Ruth Lewis, Jane told her that she 'had all her songs from her mother'.<sup>35</sup> This implies that Jane's mother was bilingual, because Jane sang English and Welsh folk-songs. Yet the route by which at least two of these English folk-songs were transmitted may be different from that used for all the other songs with which Jane was familiar. In the Preface to her first published collection of folk-songs Ruth Lewis writes:

I have . . . included in the collection two English folksongs sung to me by Mrs Jane Williams, who told me she learnt them as a girl "when everyone in Alun [*sic*] Square Holywell used to sing"<sup>36</sup>

If only Ruth Lewis had clarified this statement! While there appears to be no dispute that Jane Williams learnt the two English songs ('The Little Gipsy Girl' and 'Lovely Nancy') as a girl, it is not clear whether they were learnt from Jane's mother, or from other members of the Allen Square community. Some of these may have been English immigrant workers who were sharing their English oral heritage in 1830s Holywell. It suggests that Jane was brought up from an early age in a singing culture, which she evidently enjoyed. Whatever is the correct interpretation concerning the line of oral transmission, it is probable that both her mother and the Allen Square community played a part.

A look at the Census Returns for Allen Square over a number of years suggests a shifting population, so it is not clear when the family first moved there, nor for how long they stayed: Jane may even have been born there. The Census for 1841 records three children named Jane living in Allen Square – Jane Williams (aged eight), Jane Davies (aged ten), and Jane Littler (aged fifteen). Only Jane Williams's details match those found in her marriage certificate referred to earlier. Other information from the 1841 Census lists brothers Robert (aged one) and William (aged ten) and a sister Elizabeth (aged five).<sup>37</sup> Her parents, Robert and Mary Williams were married on 28 August 1819. Robert's profession changes from 'Labourer' (1821), to 'Tanner' (1833), and 'Skinner' (1841 and 1844), and finally 'Glover', which suggests that he was moving 'up-market'.<sup>38</sup>

The Registers of Baptisms record Jane's other brothers and sister: Hannah (1821), Joseph (1841), and Benjamin (1844). Anne Jane Williams herself was baptised at Holywell on 27 September 1833.<sup>39</sup> Therefore in August 1911, when she first sang for Ruth Lewis, she would have been aged seventy-seven. Although the correct year of her birth can now be asserted, and confirmation provided that she was born in Holywell, a veil still surrounds the details of Jane's earliest years, and the history of her later life in Holywell. For over thirty-five years she lived at the Blue Bell Yard where she brought up her family and worked with her sister. During those years she experienced personal tragedy and endured an ever-decreasing standard of living.

Her death is not mentioned in the Workhouse records; it is as if she simply disappears. In an undated cutting which refers to a lecture given by Ruth Lewis at the Cafe Royal, Colwyn Bay, under the auspices of the

Cymmrodorion Society, it was reported that:

Those who were practically interested in folk songs often visited very old people in order to obtain a record of them before their custodians passed away. There recently died at Holywell Workhouse an old lady who a short while previously had sung to Mary Davies and the lecturer a number of very fine specimens.<sup>40</sup>

In the lecture, Ruth Lewis had referred to the forthcoming Royal National Eisteddfod at Corwen, due to take place in the Summer of 1919, so for Jane's death to have been 'recent', it probably occurred either in 1918 or early 1919.

Notwithstanding the mysteries surrounding Jane's life and death, the indisputable fact remains that beginning in August 1911 and continuing until January 1915, Ruth Lewis visited Jane Williams at the Holywell Workhouse on a number of occasions, during which she recorded her singing over two dozen folk-songs. These Jane had learned as a girl in the 1830s, making her one of the earliest informants to be recorded by the Welsh Folk-Song Society. Clearly her reputed age was part of the attraction for Ruth Lewis as well as the number of songs she was prepared to sing.

Many of Jane Williams's Welsh and English folk-songs survive in manuscript and printed forms, and also on a number of original phonograph cylinders. This is the enduring legacy of Holywell's folk-song legend.

## NOTES

- [Ruth] Herbert Lewis, preface, *Folk-Songs Collected in Flintshire and the Vale of Clwyd* [Wrexham, 1914], viii.
- s.v. 'Robin Goch' in *Journal of the Welsh Folk-Song Society* II.i.(1914), 39.
- I am grateful to Miss Mairwenna Lloyd, grand-daughter of Jane Williams, Berthengam, for this information (undated correspondence with the author, December 2003).
- Anne Jane Williams recorded 'A welsoch chwi hen ffon fy nain', 'Ar rhyw noswaith yn fy ngwely', 'Chwech o eifr 'sgyrniog', 'Dacw mam yn dwad wrth y ganfa', 'Gwenni aeth i ffair Pwllheli', 'Gwrandewch ar stori greulon', and 'Robin goch oedd ar y rhiniog'. Tape, Museum of Welsh Life 1393 F 38.
- Ruth Lewis, notes on the songs, *FFVC*, op.cit., xii.
- Admittedly, the figure of twelve is given by Dora Herbert Jones in "'They Found the Songs" 5 Lady Herbert Lewis', radio script, broadcast 24 May 1954, MWL MS 1459/248, p. 4; but fourteen is the figure used by her in: *50th Anniversary of the Welsh*

- Folk Song Society: Contribution by Mrs Dora Herbert Jones*, radio script, broadcast c. September 1958, MWL MS 1459/260, p. 2; 'Folk Song Album', radio script, broadcast 16 December 1959, MWL MS 1469/264, p. 3; and untitled draft radio script, MWL MS 1459/267 [1–3 at 2].
- 7 s.v. 27 September 1900 in *The Admission and Discharge Book* [26 January 1900–26 March 1901], Flintshire Record Office G/B/60/17.
  - 8 s.vv. 5 July 1901 and 7 January 1902 in *The Admission and Discharge Book* [30 March 1901–21 January 1903], FRO G/B/60/18.
  - 9 s.v. 29 September 1902 in *The Admission and Discharge Book*, *ibid.*
  - 10 Jane Williams was receiving diet '4a' at her July 1901 and September 1902 discharges and at her January and October 1902 admissions, as indicated by a tick in that column. At the bottom of the page appears printed 'The columns 4a and 8a are for the Children', *The Admission and Discharge Book*, *ibid.*, 41 and 80.
  - 11 Dora Herbert Jones, untitled draft radio script, *op.cit.* [at 2].
  - 12 Census for 1881, Public Record Office microfilm RG 11/5502.
  - 13 In the 1861 Census her age is given as 27 years (implying a date of birth of 1834) when she should have been at least 32 or 34 had she been born in 1826 or 1828, PRO microfilm RG 9/4267, f. 16; in the 1891 Census her age appears as 59 years (implying a date of birth of 1832) instead of the expected 62 or 64, PRO microfilm RG 12/4605.
  - 14 Census for 1881, *op.cit.*, f. 7.
  - 15 s.v. 7 May 1855 entry no. 407, Holywell Parish Registers, Marriages 1837–1857, FRO microfilm P/30/1/19–20.
  - 16 Ruth Lewis, preface, *FFVC*, *op.cit.*, iii.
  - 17 See the 1861 and 1891 Censuses *op.cit.*
  - 18 See the 1861 Census *op.cit.*; also Holywell Parish Registers, Baptisms 1825–79, FRO microfilm P/30/1/7–8.
  - 19 Census for 1871, PRO microfilm RG 10/5640 f. 30; Holywell Parish Registers, Baptisms 1825–79, *ibid.*
  - 20 Dr J. Owen Jones was appointed on 8 January 1897, at £40 p.a. plus fees, see 'List of the Workhouse Officers and Servants with the Dates of their Respective Appointments, Salaries, &c.', *Holywell Rural District Council and Holywell Union: List of Rural District Councillors, Guardians, Committees, Officers, &c., for 1897-98 together with List of Out-door Paupers...* (1897) 28. FRO G/B/4/4.
  - 21 See also Dr Jones's obituary, 'The Late Dr. J. O. Jones, Holywell', *The Flintshire Observer and News*, Thursday 14 May 1931, p. 4, col. 7.
  - 22 Dora Herbert Jones, untitled draft radio script, *op.cit.* [at 2].
  - 23 Holywell Workhouse Register of Deaths: 19 April 1848–3 February 1917. Flintshire Record Office MS G/B/69/1 refers to her burial on 17 January 1911 aged 92(!). See Flintshire Parish Registers, Burials 1805–1932, FRO microfilm P/30/1/24–30.

- 24 Dora Herbert Jones, untitled draft radio script, op.cit. [at 2].
- 25 Census for 1901, PRO microfilm RG 3/5209.
- 26 Dora Herbert Jones, untitled draft radio script, op.cit. [at 2].
- 27 *Flintshire Observer*, Friday 20 January 1911, p. 1, col. 1.
- 28 For a fuller discussion of this theme see A. H. Dodd, *The Industrial Revolution in North Wales*, 3rd ed. (Cardiff, 1971).
- 29 M. Bevan-Evans, 'Gadlys and Flintshire Lead-Mining in the Eighteenth Century: Part 1 1694–1728', *Publications of the Flintshire Historical Society* 18 (1960), 73–130 at 78–9.
- 30 Ruth Lewis collected two versions of the song, one from Mr Jenkin Jones, Llandysul on 24/6/13, and one from Mr Ifan Roberts, Mostyn Ucha, Bryn Rhyd-yr-Arian, Llansannan, in September 1913.
- 31 For a discussion of the cotton industry in Holywell (and Flintshire generally) see Edward J. Foulkes, 'The Cotton-Spinning Factories of Flintshire, 1777–1866', *Flintshire Historical Society Publications* 21 (1964) 91–97.
- 32 M. Bevan-Evans, 'Industrial Archaeology in Flintshire', *Publications of the Flintshire Historical Society* 20 (1962), 96–7 at 96.
- 33 J. G. Edwards 'Flintshire Since 1801', *Flintshire Historical Society Publications* 15 (1954–55), 69–82 at 74–5. The parish of Holywell comprised the following seven townships: Bagillt, Brynford, Calcot, Coleshill, Greenfield, Holywell, and Welstone.
- 34 For a perspective on Flintshire's rural development see Dorothy Sylvester, 'Settlement Patterns in Rural Flintshire', *Flintshire Historical Society Publications* 15, *ibid.*, 6–42.
- 35 Ruth Lewis, notes on the songs, *FFVC*, op.cit., xii.
- 36 Ruth Lewis, preface, *FFVC*, *ibid.*, vii. Allen Square (formerly known as Red Lion Square) was a courtyard accessed from Bagillt Street with houses on three sides. The site is now occupied by the town's Kwik-Save car park.
- 37 Census for 1841, PRO microfilm HO 107 1413; also Holywell Parish Registers, Marriages 1837–1857, op.cit.
- 38 Holywell Parish Registers, Baptisms 1825–79, op.cit.; Flintshire Parish Records, Marriages 1837–1857, op.cit.
- 39 *s.v.* 27 September 1833 in Holywell Parish Registers, Baptisms 1825–41, FRO microfilm P/30/1/7.
- 40 Undated cutting, MWL MS 2877 / 314.

I am grateful to the Flintshire Record Office for permission to reproduce the 1833 John Wood map of Holywell.



# GORFOLEDD ‘CWYNFAN PRYDAIN’

## Rhiannon Ifans

Eleni, fel y gwyddom un ac oll, dethlir canmlwyddiant Diwygiad 1904–05, neu ‘Ddiwygiad Evan Roberts’, fel y’i gelwir ar dro. Un o’n hystrydebau mawr yng Nghymru yw cwyno mai’r Diwygiad Methodistaidd a’i effeithiau a laddodd haen ar haen o’n bywyd gwerin, yn arferion ac yn ganeuon. Gall fod llawer o wir yn hynny, ond nid yw’n wir i gyd o bell, bell ffordd. Dylid cofio bob amser fod y cynnwrf Methodistaidd wedi mabwysiadu llawer o alawon poblogaidd y ddeunawfed ganrif a’u defnyddio’n gyfrwng mawl, ac yn hynny o beth buont yn gyfrwng hynod effeithiol a phrydferth yn enwedig felly yng nghydestun cyflwyno’n carolau a’n hemynau.



*Rhiannon Ifans*

O gadw hynny mewn cof, diddorol oedd gwylio recordiad, y diwrnod o’r blaen, o raglen deledu a geisiai ddisgrifio, ac i raddau a geisiai ddadansoddi, Diwygiad 1904–05. Rhaglen a luniwyd gan Aneurin Talfan Davies yn 1959 oedd hon, yn dwyn y teitl ‘Nefol Dân’. Fe’i darlledwyd gyntaf brynhawn Sul, Ddydd Gŵyl Dewi 1959, i nodi canmlwyddiant diwygiad arall, sef Diwygiad Humphrey Jones a Dafydd Morgan yn 1859. Ailddarlledwyd y rhaglen ar S4C ar 13 Chwefror 1983.

Roedd y rhaglen yn dew o gyfweiliadau â nifer o bobl a gofiai Evan Roberts a’r diwygiad, ac yn eu plith cafwyd sgwrs ag Annie Davies, Maesteg, un o’r merched a ddilynai Evan Roberts ar ei deithiau pregethu o gwmpas Cymru yn ystod yr adfywiad. Roedd ei stori yn un syfrdanol. Soniodd sut y bu iddi wrando ar anogaeth ei chwaer, Magi, ym mis Tachwedd 1904, i fynd i lawr i Bontycymer ‘i weld y rhyfeddodau’. Cyrhaeddodd Annie Bontycymer ‘a’r hewl yn ddu o bobl’. Beth oedd y rhyfeddodau a’u tynnent yno, ac i ble roedd y tyrfa oedd yn heidio? Y capel oedd eu cyrchfan, a’r dynfa oedd

pregethu Evan Roberts. Cymaint oedd ei boblogrwydd, bu'n rhaid i Annie Davies, Maesteg, sefyll y tu allan am ddwyawr cyn cael mynediad i'r capel oherwydd prinder lle. Roedd y capel yn berwi o bobl yn canu a gweddio. Ymhen ychydig, teimlai fod yn rhaid iddi hithau godi i ganu. Ei dewis emyn oedd 'Dyma gariad fel y moroedd', emyn mawr William Rees 'Gwilym Hiraethog' (1802–83). Ond nid 'Tôn y Botel', neu 'Ebenezer', fel sy'n arferol i ni ei gysylltu â diwygiad 1904–05, oedd ei dewis alaw. Canodd ar 'Cwynfan Prydain' allan o *Songs of Wales*, yn ôl ei thystiolaeth ei hun. Nodir i'r cyfuniad hwn o eiriau ac alaw gael ei gyhoeddi yn y llyfryn bach *Adlais Diwygiad 1904-5*, sef rhaglen ac emynau'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ym Moriah Casllwchwr, adeg dadorchuddio cofgolofn i'r Diwygiad, 15-16 Gorffennaf, 1953.

Roedd Annie Davies, Maesteg, yn soprano addawol, ac roedd wedi cael gwersi canu gyda Madam Clara Davies, mam 'Ivor Novello', cyn symud wedyn at Harri Evans, Dowlais, i gael rhagor o hyfforddiant lleisiol. Yn sicr fe wnaeth argraff gref ar Evan Roberts. Gwyddai hwnnw'n iawn mai un modd effeithiol iawn i ymledu'r nefol dân oedd drwy gyfrwng cantorion a'u lleisiau hudolus yn cyflwyno geiriau nerthol emynau gras. Ar ddiwedd y cyfarfod daeth Evan Roberts ati a dweud wrthi fod yn rhaid iddi fynd gydag ef 'i ganu ar y *mission*'. Ac felly y bu. Aeth hi ddim adref ar ddiwedd yr oedfa'r noson honno, yn wir nid aeth adref am flwyddyn gron, ond dilyn Evan Roberts o gwmpas Cymru, yn ferch ifanc ddwy ar bymtheg oed.

Mae dau fersiwn o 'Cwynfan Prydain' yn *Songs of Wales* John Thomas 'Pencerdd Gwalia' (1874), y naill ar gyfer unawdydd a'r llall yn drefniant pedwar llais. Mae'r fersiwn a ganodd Annie Davies ar y tâp yn 1959 yn dilyn *Songs of Wales* gyda mân amrywiadau. Un nodwedd drawiadol ar ei datganiad yn 1959 (ar wahân i'r ffaith ei bod yn gwisgo het ddu flewog a chôt gaeaf wedi ei chau at ei gwddf fel petai ar fin cychwyn allan i'r eira) yw'r ailadrodd ar y cymal '... nad â'n angof'; mae'n arafu'r tempo'n sylweddol er mwyn pwyslais, mae'r nodau'n uchel, ac mae ansawdd ei llais wedi dal yn dda.

I un sydd â fawr i'w ddweud wrth 'Dôn y Botel', pleser anghyffredin oedd gweld priodi'r geiriau anfarwol hyn â'r alaw hudolus 'Cwynfan Prydain'. Ac i unrhyw un arall sydd flys rhyw newid bach, wel beth am roi tro arni?

Cyhoeddir yma'r fersiwn a ymddangosodd yn CCAGC II, t. 253.

# 153—CWYNFAN PRYDAIN

Doh G. *Slow.* D.C.

<| ṁ : ṁ : ṁ : ṁ .- | ḋ , ḋ : ṙ , ṫ , .- | l̇ , , ṫ : ḋ , ṁ .- | ṙ . ḋ : ṫ , ||

<| ṁ : ṡ : ḟ ė , ṡ .- | ḋ , ḋ : ṙ , ṫ , .- | ṡ , , ḟ ė : ṡ , ṁ .- | ḋ . ṙ : ṫ , }

<| ḋ , , ṙ : ṁ , ṁ .- | l̇ , , l̇ : ṡ , ṁ .- | ḋ , , l̇ : ḋ . ṫ , | l̇ , . ṡ ė , : l̇ , D.S. }

Dyma gariad fel y moroedd,  
Tosturiaethau fel y lli:  
Twysog Bywyd pur yn marw—  
Marw i brynu'n bywyd ni.  
Pwy all beidio â chofio amdano?  
Pwy all beidio â thraethu'i glod?  
Dyma gariad nad â'n angof  
Tra fo nefoedd wen yn bod.

*Gwilym Hiraethog*

# ADOLYGIAD

## Dafydd Ifans

---


Ian Russell & David Atkinson (gol.), *Folk Song – Tradition, Revival, and Re-Creation* (Aberdeen: The Elphinstone Institute, University of Aberdeen, 2004). 555 tt. £25.00

Ffrwyth cynhadledd ryngwladol yw'r gyfrol swmpus hon, er na ddywedir hynny wrthym. Cynhaliwyd y gynhadledd 'Folksong Tradition and Revival' ar 10–12 Gorffennaf 1998 ym Mhrifysgol Sheffield a'r bwriad oedd dathlu canmlwyddiant sefydlu'r Folk Song Society yn 1891, sef y gymdeithas a elwir bellach The English Folk Dance and Song Society.

Gyda chyfrol sy'n cynnwys tri dwsin o gyfraniadau, mae'n amhosibl crybwyll popeth na manylu rhyw lawer. Mae'n wir i ddweud, fodd bynnag, fod y cynnwys wedi ei drefnu fesul dwsin o erthyglau dan y penawdau canlynol: 'Reviving and re-creating folk traditions', 'Those who made it happen', sef ymdriniaethau ar gasglwyr alawon gwerin (chwech o ddynion a chwe merch), ac yn olaf 'Singers and songs'.

Yn y gynhadledd wreiddiol yr oedd tri phapur yn ymwneud â themâu Cymreig. Eisoes gwelwyd cyhoeddi papur Wyn Thomas ar Mary Davies (1855–1930) yn y cylchgrawn hwn. Cafwyd papur hefyd ar Dr John Lloyd Williams gan Elen Wyn Jones [Keen erbyn hyn] lle trafodir ei ddiddordebau mewn dau faes tra gwahanol – llysieuog a chanu gwerin. Dim ond y trydydd papur, un E. Wyn James, a gyhoeddir yn y gyfrol hon. Teitl ei erthygl yw 'An "English" Lady Among Welsh Folk: Ruth Herbert Lewis and the Welsh Folk-Song Society'.

Yn yr erthygl adroddir peth o hanes sefydlu Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif a gwelir hynny'n rhan o'r momentwm a grewyd gan Undeb Cymru Fydd wrth frwydro i ffurfio sefydliadau



cenedlaethol yng Nghymru. Y tri phrif symudiad tu ôl i'r meddylfryd hwn oedd gwlatgarwch, Rhamantiaeth a hynafiaetheg. Adroddir yn gryno hanes John Herbert Lewis AS, gan ddangos sut y bu iddo briodi Ruth Caine yn 1897, yn dilyn marwolaeth ei wraig gyntaf yn 1895. Er mai Saesnes oedd Ruth Herbert Lewis yn dechnegol, wedi ei magu yn Lerpwl a Llundain, yr oedd ganddi hynafiaid o Ynys Manaw ar y ddwy ochr. Dysgodd Gymraeg ac ymrôdd i'r bywyd diwylliedig Cymreig gan fagu ei phlant, Kitty a Mostyn, yn Gymry Cymraeg.

Cyflawnwyd y rhan fwyaf o'i gwaith casglu alawon gwerin rhwng 1910 a dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf yn 1914. Canolbwyntiodd ar ei chysylltiadau yng ngogledd-ddwyrain Cymru, gan gasglu yn sir y Fflint a dwyrain sir Ddinbych gan mwyaf. Ond yn 1913 fe gafwyd un daith gasglu ganddi yn y maes ehangach, a hynny yn ne-orllewin Cymru.

Rhyw hanner cant o eitemau a gasglwyd gan Ruth Herbert Lewis, a chyhoeddwyd tua'u hanner mewn dwy gyfrol yn 1914 a 1934. Fe ganolbwyntir yn erthygl E. Wyn James ar dair eitem a ddarganfuwyd ganddi, sef 'Cadi Ha', 'Marwnad Lowri Lew', a'r garol 'O! deued pob Cristion'. Cafodd afael ar 'Marwnad Lowri Lew' gan Isaac Jones (1829–1913), tad y wraig a'i cynorthwyai hi yn y cartref a chafwyd y garol, neu un pennill carbwl ohoni, gan ŵr yr un wraig. Llwyddodd awdur yr erthygl i ddarganfod fersiwn gwreiddiol y garol boblogaidd hon mewn casgliad o emynau, carolau a marwnadau gan Jane Ellis, aelod gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn yr Wyddgrug, llyfr saith deg dau o dudalennau o hyd a gyhoeddwyd yn y dref honno yn 1840, yn dwyn y teitl *Casgliad o Hymnau, Carolau, a Marwnadau*.

Ymhlith erthyglau eraill y gyfrol ceir ymdriniaethau â chasglu a chanu caneuon gwerin mewn rhan o Rwsia, yn Lithwania, y Ffindir, Corea, yr Alban, Iwerddon, Llydaw, a rhannau o Ganada, heb sôn am agweddau lawer ar y traddodiad a'r casglu a fu yn Lloegr.

Mae'r gyfrol hon yn gloddfa i'r sawl sy'n ymglywed â rhamant oes aur y casglu yn union cyn y Rhyfel Mawr. Darlunnir arwriaeth y casglwyr ynghyd â phortreadu'r perfformwyr hynny, hyd ein cyfnod ni, a brofodd yn ffynonellau tra buddiol iddynt wrth gofnodi'r alawon a'r geiriau a fyddai wedi mynd i ebargofiant oni bai am eu llafur.



**CYNHALEDD RYNGWLADOL**  
**ASTUDIAETHAU GWERIN CELTAIDD**  
**YSGOL Y GYMRAEG, PRIFYSGOL CAERDYDD**  
**20–23 GORFFENNAF 2005**  
**Siwan Rosser**

---

Fis Gorffennaf nesaf bydd Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd yn cynnal cynhadledd ryngwladol ar Astudiaethau Gwerin Celtaidd. Bu'r Ysgol yn cynnig cyrsiau israddedig a chwrs MA ar Astudiaethau Gwerin ers 1992 ac rydym yn awyddus i hybu ymchwil bellach yn y maes drwy gyfrwng y gynhadledd hon. Cynhelir y gynhadledd mewn cydweithrediad ag Amgueddfa Werin Sain Ffagan, sydd wedi bod yn cyfrannu at y cwrs MA ers y dechrau, ynghyd â'r *Folklore Society*.

Ein bwriad yw denu cynulleidfau eang o bedwar ban byd i drafod 'Astudiaethau Gwerin Celtaidd'. Dylid dehongli'r teitl hwnnw yn y modd ehangaf bosibl: gall gyfeirio at unrhyw grŵp ethnig o fewn ffiniau'r gwledydd Celtaidd, neu unrhyw grŵp Celtaidd y tu allan i'r ffiniau hynny.

Mae Astudiaethau Gwerin yn faes poblogaidd iawn yng Nghymru; mae nifer fawr ohonom yn ymddiddori mewn enwau lleoedd, dywediadau, tafodieitheg, y gân a'r ddawns werin, bwydydd traddodiadol a llawer, llawer mwy. Bydd y gynhadledd hon yn gyfle i dynnu sylw cynulleidfau ryngwladol at yr ymchwil a'r ysgolheictod sydd yma yng Nghymru, yn ogystal â rhoi cyfle i ni wrando ar rai o ysgolheigion pennaf y maes yn traethu. Bydd siaradwyr yn dod o'r gwledydd Celtaidd, Ewrop a Gogledd America. Mawr hyderwn y bydd y papurau a gynigir a'r trafodaethau a geir yn ystod y gynhadledd yn fodd i hyrwyddo ac ehangu Astudiaethau Gwerin ymhellach yng Nghymru.

Croesawn bapurau ar bob math o draddodiadau llafar, arferion, canu a dawnsio gwerin, iaith a thafodieitheg, a phapurau'n ymdrin â diwylliant materol a bywyd gwerin. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn llên gwerin gyfoes a'r materion sy'n ymhyg yn yr ymdrech i adfywio a chynnal rhai o draddodiadau'r gorffennol. Yn ogystal, gan ein bod wedi ein lleoli

mewn dinas aml-ddiwylliannol, byddwn yn cynnal trafodaeth arbennig ar hunaniaeth ddiwylliannol rhai o grwpiau ethnig Caerdydd. Os dymunwch gynnig papur yn y gynhadledd hon (yn y Gymraeg neu'r Saesneg), anfonwch deitl a chrynodeb o'r cynnig (dim mwy na 200 gair) erbyn **20 Ionawr 2005** at:

[cymraeg@caerdydd.ac.uk](mailto:cymraeg@caerdydd.ac.uk)

neu

Cynhadledd Astudiaethau Gwerin Celtaidd

Ysgol y Gymraeg,  
Prifysgol Caerdydd,  
Adeilad y Dyniaethau,  
Rhodfa Colum,  
Blwch SP 910,  
Caerdydd  
CF10 3XW



*Amgueddfa Werin Cymru. Bydd yr adfywiad yn y diddordeb yn y Fari Lwyd yn un o'r testunau a drafodir yn y Gynhadledd Astudiaethau Gwerin Celtaidd.*

# CYHOEDDIADAU

## Ancient National Airs of Gwent and Morganwg

/ gol. Daniel Huws. . . . . £8.50

## Hen Alawon (Carolau a Cherddi)

/ gol. Phyllis Kinney a Meredydd Evans . . . . . £5.50

**Canu'r Cymry** / gol. Phyllis Kinney a Meredydd Evans. . . . . £3.50

**Canu'r Cymry II** / gol. Phyllis Kinney a Meredydd Evans . . . . . £3.50

**Caneuon Gwerin i Blant** / gol. Phyllis Kinney a Meredydd Evans . . . . . £3.50

**Lleisiau'r Werin** . . . . . £1.50

**Lleisiau'r Werin 2** / gol. Rhidian Griffiths . . . . . allan o brint

**Lleisiau'r Werin 3** / gol. Rhidian Griffiths . . . . . £2.75

**Lleisiau'r Werin 4** / gol. Rhidian Griffiths . . . . . £4.00

**Lleisiau'r Werin 5** / E. Olwen Jones . . . . . £5.95

**Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru 1908-1983** / D. Roy Saer. . . . . £1.00

**Second Collection of Welsh Folk-Songs** / Lady Herbert Lewis (adargraffiad) .  
£0.40 . . . . .

## Darlithiau Coffa Amy Parry-Williams

1990: **Canu Jim Cro** (Meredydd Evans) . . . . . £1.00

1991: **Ffiniau** (Rhidian Griffiths) . . . . . £1.00

1992: **Canu at iws** (D. Roy Saer) . . . . . £1.50

1993: **Caneuon llafar gwlad ac Iolo a'i fath** (Daniel Huws). . . . . £1.50

1995: **O lafar i lyfr** (Phyllis Kinney) . . . . . £1.50

1996: **Canu Ffolant** (Rhiannon Ifans) . . . . . £3.00

1997: **Teulu, bro a thelyn** (Robin Gwyndaf) . . . . . £13.95

1998: **Canu'r werin yng Ngogledd-Ddwyrain Cymru**

(Aled Lloyd Davies) . . . . . £1.50

1999: **Meistres Graianfryn** (Wyn Thomas) . . . . . £2.00

2000: **Traddodiad Cerdd Cymru** (Stephen Rees). . . . . £1.50

(argreffir darlithiau 2001 ymlaen yn *Canu Gwerin*)

## Casét

**Caneuon y Siroedd** . . . . . £5.00

I'w cael trwy'r siopau neu gan y Trysorydd: Rhidian Griffiths, Coed y Berllan, Ffordd Bryn-y-môr, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2HX





**\*2330156\***

**Dyblygion**

**Canu gwerin**

**Folk song.**

---